



Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder

# **Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal ('atchwip')**

Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar  
gyfer hawliadau am anafiadau personol yng  
Nghymru a Lloegr





## **Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal ('atchwip')**

Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr

Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder ar Orchymyn Ei Mawrhydi

Tachwedd 2016



© Hawlfraint y Goron 2016

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](https://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3) neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfon e-bost at: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk).

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi gael caniatâd y sawl biau'r hawlfraint berthnasol.

Mae modd llwytho'r cyhoeddiad hwn i lawr yn: <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/reforming-soft-tissue-injury-claims>

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn [whiplashcondoc@justice.gsi.gov.uk](mailto:whiplashcondoc@justice.gsi.gov.uk)

ISBN print 9781474138956

ISBN gwe 9781474138963

ID 15111633 11/16

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys 75% o ffibr wedi'i ailgylchu o leiaf.

Argraffwyd yn y DU gan Grŵp Williams Lea ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

## Ynghylch yr ymgynghoriad hwn

<b>Ar gyfer:</b>	Rhanddeiliaid sydd â diddordeb mewn diwygio'r broses hawliadau am anafiadau personol i gymell pobl i beidio â gwneud mân hawliadau, hawliadau wedi'u gorliwio a hawliadau twyllodrus, sy'n cyfrannu at gost uchel premiymau yswiriant modur a delir gan bob modurwr.
<b>Cyfnod:</b>	O 17 Tachwedd 2016 tan 6 Ionawr 2017
<b>Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau am y papur ar fformat arall) i:</b>	Scott Tubbritt Ministry of Justice 3.50, 3rd Floor 102 Petty France London SW1H 9AJ  Ffôn: 020 3334 3157 Ffacs: 0870 739 4268  E-bost: <a href="mailto:whiplashcondoc@justice.gsi.gov.uk">whiplashcondoc@justice.gsi.gov.uk</a>
<b>Sut mae ymateb:</b>	Anfonwch eich ymateb erbyn 5.30pm ddydd Gwener 6 Ionawr 2017:  Scott Tubbritt Ministry of Justice Post point 3.50, 3 <sup>rd</sup> Floor, 102 Petty France London SW1H 9AJ  Ffôn: 020 3334 3157 Ffacs: 0870 739 4268  E-bost: <a href="mailto:whiplashcondoc@justice.gsi.gov.uk">whiplashcondoc@justice.gsi.gov.uk</a>
<b>Papur ymateb:</b>	Disgwylir y bydd ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn yn cael ei gyhoeddi erbyn dydd Gwener 7 Ebrill 2017 yn: <a href="https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/reforming-soft-tissue-injury-claims">https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/reforming-soft-tissue-injury-claims</a>



## Cynnwys

Rhagair	3
Crynodeb gweithredol	5
Rhagarweiniad	8
Rhan 1 – Nodi'r materion a diffinio anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd	10
Rhan 2 – Lleihau nifer a chost mân hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd	16
Rhan 3: – Cyflwyno system tariff penodedig ar gyfer hawliadau eraill am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd	21
Rhan 4 – Codi terfyn y trac hawliadau bychain ar gyfer hawliadau am anafiadau personol	26
Rhan 5 – Cyflwyno gwaharddiad ar gynigion cyn prawf meddygol i setlo hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd	34
Rhan 6 – Rhoi argymhellion y Tasglu Twyll Yswiriant ar waith	37
Rhan 7 -Galw am dystiolaeth ynghylch materion cysylltiedig	39
Rhan 8 -Yr amserlen ddeddfwriaethol a'i rhoi ar waith	47
Rhan 9 -Holiadur	48
Rhan 10 -Asesiad o'r Effeithiau	88
Amdanoch chi	92
Manylion cysylltu/Sut i ymateb	94
Egwyddorion ymgynghori	96

---

**Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal ('atchwip')**

Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr



## Rhagair



Mae'r llywodraeth yn cyflwyno pecyn o fesurau i fynd i'r afael â mân hawliadau, hawliadau sydd wedi'u gorliwio neu rai twyllodrus am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd.

Bydd y pecyn diwygio a gyhoeddwyd yn yr ymgynghoriad hwn yn arbed oddeutu £1bn y flwyddyn i'r diwydiant, a fydd yn cael ei drosglwyddo i ddefnyddwyr drwy breimiymau yswiriant modur is. Gallai miliynau o fodurwyr arbed £40 ar gyfartaledd ar eu hyswiriant car blynyddol o ganlyniad i'r cynigion hyn i fynd i'r afael â'r nifer annerbyniol o hawliadau.

Mae'r llywodraeth yn cydnabod bod y maes hwn yn un cymhleth a bod pobl yn cyflwyno hawliadau am nifer o resymau. Serch hynny, mae nifer yr hawliadau am anafiadau atchwip 50 y cant yn uwch nag yr oedd ddeng mlynedd yn ôl, er bod ein ffyrdd ymysg y mwyaf diogel yn Ewrop a bod llai o ddamweiniau'n cael eu cofnodi.

Ar hyn o bryd, mae'r cymhelliant ariannol i wneud hawliadau o'r fath yn rhy fawr. Y taliad cyfartalog ar gyfer mân hawliad am atchwip yw £1,850, ac mae'r gost o ddelio â'r rhain yn gwbl anghymesur ag unrhyw anaf gwirioneddol a gafwyd.

Mae'r papur ymgynghori hwn yn cynnig bod yr iawndal am boen, dioddef a cholli amwynder (PSLA) mewn hawliadau am anafiadau atchwip yn cael ei ddileu'n gyfan gwbl neu fod swm penodedig yn cymryd ei le. Dylid gwerthuso'r ddau gynnig gwahanol hyn yn unigol, yn eu rhinwedd eu hunain, a hefyd fel rhan o becyn gyda'r mesurau eraill yn y papur.

Mae'r mesurau hynny yn cynnwys cyflwyno tariff o daliadau ar gyfer PSLA mewn hawliadau mwy sylweddol, cynyddu'r terfyn ar gyfer hawliadau bychain gyda golwg ar hawliadau anaf personol o £1,000 i £5,000, a chyflwyno gwaharddiad ar setlo hawliadau am atchwip heb adroddiad meddygol gan arbenigwr meddygol achrededig.

Er y cynigion yng nghyswllt PSLA, bydd pob hawlydd yn dal yn gallu cael iawndal am fathau eraill o golled, gan gynnwys costau meddygol neu golli enillion, ni waeth pa bolisi a fabwysiadir gan y llywodraeth ar ôl ymgynghori.

Mae'r cynigion wedi'u hanelu'n benodol at fynd i'r afael â'r diwylliant iawndal sydd wedi datblygu o amgylch hawliadau am atchwip yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r diwylliant hwnnw yn cael ei gynnal gan ddiwydiant helaeth o alwadau niwsans parhaus a hysbysebion wedi'u targedu sy'n annog modurwyr i hawlio pan nad oes anaf, neu fach yw'r anaf a gafwyd.

Mae'r llywodraeth yn credu bod diwygio yn hollbwysig er mwyn cynnal ffydd modurwyr yn y system. Mae'r prif yswirwyr eisoes wedi ymrwmo i drosglwyddo arbedion i ddefnyddwyr, a byddwn yn ystyried cymryd rhagor o gamau os nad yw premiymau'r dyfodol yn adlewyrchu'r costau is.

Mae lleihau nifer a chostau cyffredinol cyflwyno hawliadau sifil – rhai anafiadau personol yn arbennig – wedi bod yn flaenoriaeth i'r llywodraeth hon a'i rhagflaenydd ers 2010.

**Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal ('atchwip')**

Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr

O ystyried yr effaith ar filiynau o ddefnyddwyr, mae'r llywodraeth yn deall y bydd gan ystod eang o randdeiliaid ddiddordeb yn y diwygiadau a nodir yn y ddogfen hon. Bydd gweinidogion a swyddogion yn parhau i gwrdd â chynrychiolwyr o bob rhan o'r sector anafiadau personol.

Anogaf bob un ohonoch chi i ddarllen yr ymgynghoriad pwysig hwn ynghyd â'r asesiad o'r effeithiau a ddaw gyda'r ymgynghoriad, ystyried yr holl gynigion ynddo ac ymateb iddynt.



**YR ARGLWYDD KEEN OF ELIE CF**

## Crynodeb gweithredol

1. Mae'r llywodraeth yn cyflwyno pecyn diwygio newydd er mwyn mynd i'r afael â nifer a chost uchel hawliadau am anafiadau personol, ac yn enwedig hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd. Hawliadau am atchwip yw'r mwyafrif helaeth o'r rhain. Mae'r pecyn yn cynnwys pedwar mesur i gyflawni'r canlynol:
  - a) mynd i'r afael â nifer uchel y mân hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd, a hynny drwy:
    - i. ddileu'r iawndal am PSLA;<sup>1</sup> neu
    - ii. leihau'r iawndal am PSLA drwy osod swm penodol sy'n daladwy (£400 neu £425 os oes elfen seicolegol) ar gyfer y mathau hyn o hawliad.
  - b) lleihau'r iawndal am PSLA mewn hawliadau eraill am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd, lle bydd y cyfnod ymadfer yn hwy nag ar gyfer y rheini y mae mesur (a) uchod yn cyfeirio ato, drwy gyflwyno tariff iawndaliadau penodedig;
  - c) codi'r terfyn ar gyfer mân hawliadau ym mhob hawliad am anafiadau personol i hyd at £5,000 o leiaf (drwy gyfeiriad at werth elfen PSLA yr hawliad). Byddai hyn yn golygu na fyddai'r costau cyfreithiol penodedig ar gyfer hawliadau o'r fath bellach yn rhai y gellid eu hadennill gan y diffynyddion yn y rhan fwyaf o'r hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal, er y gallai hawlydd llwyddiannus ddal i hawlio costau penodol sy'n gysylltiedig â'r achos (er enghraifft costau dwyn yr hawliad) a nifer o alldaliadau (er enghraifft cost yr adroddiad meddygol); a
  - d) gwahardd cynigion cyn prawf meddygol i setlo hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd, fel na fyddai modd setlo hawliadau yn y dyfodol heb dystiolaeth feddygol gan ymarferwyr achrededig MedCo<sup>2</sup>.
2. Cyhoeddwyd y mesurau i ddileu PSLA ar gyfer mân hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd, ac i gynyddu'r terfyn ar gyfer hawliadau bychain mewn hawliadau am anafiadau personol, gan y Canghellor ar y pryd yn Natganiad yr Hydref ym mis Tachwedd 2015. Mae'r mesurau ychwanegol yn ategu'r diwygiadau hynny, a'u nod yw rhoi iawndal cymesur i hawlwyr yn ogystal â mwy o sicrwydd ynghylch gwerth eu hawliad a hefyd gostwng nifer yr hawliadau sy'n cael eu setlo heb her ddigonol neu dystiolaeth feddygol briodol.
3. Bydd gofyn creu deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer Mesurau (a), (b) a (d) ac mae'r llywodraeth yn bwriadu deddfu cyn gynted ag y bydd amser yn y senedd yn ei ganiatáu. Bydd y llywodraeth yn cyflwyno cynigion wedi'u mireinio ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Un enghraifft o'r manylion y mae angen penderfynu yn eu cylch yw'r hyn a olygir wrth y term 'mân'

---

<sup>1</sup> Term yw poen, dioddef a cholli amwynder (PSLA) a ddefnyddir ar gyfer elfennau penodol o iawndal ar ôl damwain. Mae'r elfen boen a dioddef yn gwneud iawn am bob symptom corfforol a seiciatrig yn y gorffennol, yn y presennol ac yn y dyfodol. Mae'r elfen colli amwynder yn gwneud iawn am golli mwynhad mewn bywyd neu amharu ar allu rhywun i gyflawni tasgau beunyddiol.

<sup>2</sup> Cwmni 'heb fryd ar wneud elw' ym mherchnogaeth y diwydiant yw MedCo sy'n goruchwyllo'r gwelliannau mewn safonau adrodd meddygol drwy achredu arbenigwyr meddygol, ac mae hefyd yn gweithredu'r Porth TG a ddefnyddir i gael gafael ar adroddiadau meddygol cost-benodedig cychwynnol ac annibynnol i gefnogi hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd.

## Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal ('atchwip')

Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr

hawliad ym mharagraff 1(a), ac mae'r llywodraeth yn cynnig y dylid seilio hyn ar ba mor hir mae'r anaf yn para. Mae diffiniad 'mân' yn cael ei drafod yn Rhan 1 o'r ddogfen ymgynghori hon.

4. Mae Mesur (c) yn golygu y bydd gofyn newid Rheolau'r Weithdrefn Sifil. Hefyd, bydd angen diwygio'r Protocolau Cyn-Achos perthnasol, gan gynnwys y Protocol Cyn-Achos ar gyfer Hawliadau Isel eu Gwerth am Anafiadau Personol yn sgil Damweiniau ar y Ffyrdd.
5. Nod pecyn diwygio'r llywodraeth yw gostwng y gost i fodurwyr sy'n codi yn sgil mân hawliadau yn ogystal â mynd i'r afael â hawliadau sy'n cael eu gorliwio a hawliadau twyllodrus. Mae'r diwydiant yswiriant yn amcangyfrif bod hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd yn costio oddeutu £2bn y flwyddyn i'r diwydiant. Mae cyfran fawr o'r gost hon yn cael ei throsglwyddo i fodurwyr drwy gynyddu premiymau. Pa opsiwn bynnag y gweithredir arno ar ôl yr ymgynghoriad i fynd i'r afael â mân hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd, fel y nodir yn Rhan 2 o'r ddogfen hon, mae asesiad y llywodraeth o'r effeithiau yn amcangyfrif y gallai'r rhaglen ddiwygio newydd arwain at oddeutu £1bn o arbedion i'r diwydiant yswiriant. Mae'r llywodraeth yn disgwyl y caiff y mwyafrif helaeth o'r arbedion hyn ei drosglwyddo i ddefnyddwyr drwy breimiymau rhatach.
6. Mae'r llywodraeth yn cydnabod bod y maes hwn yn un cymhleth a bod pobl yn cyflwyno hawliadau am nifer o resymau. Serch hynny, mae'r cymhelliant ariannol i wneud hawliadau o'r fath yn rhy fawr. Hefyd, fe all lefel yr her gan yswirwyr diffynyddion fod yn rhy isel gan fod cymhelliant cryf i yswirwyr beidio â rhoi o'u hamser na gwario costau i herio'r hawliadau hyn oherwydd y symiau cymharol isel ym mhob hawliad unigol. Mae nifer yr hawliadau am anafiadau personol yn sgil damwain ffordd yn dal yn fwy na 50% yn uwch nag yr oeddent 10 mlynedd yn ôl. Mae hyn er gwaetha'r ffaith bod cerbydau'n llawer mwy diogel erbyn hyn a llai o ddamweiniau'n cael eu cofnodi.
7. Nod pecyn diwygio'r llywodraeth yw ceisio mynd i'r afael â'r cymhellion ar y ddwy ochr er mwyn gostwng y costau sylweddol sy'n gysylltiedig â hawliadau am anafiadau personol. Bydd y diwygiadau'n sicrhau bod yr hawlwr dilys hynny sy'n dioddef anafiadau sy'n para'n hwy yn cael iawndal sy'n gymesur â lefel yr anaf a gafwyd. Ni wnaiff y diwygiadau effeithio ar iawndaliadau am golledion eraill, er enghraifft difrod i gerbydau, colli enillion a/neu gost unrhyw driniaeth sydd ei hangen.
8. Mae'r llywodraeth hefyd yn bachu ar y cyfle, drwy'r ymgynghoriad hwn, i gasglu safbwyntiau rhanddeiliaid am nifer o faterion cysylltiedig eraill sy'n effeithio ar y sector anafiadau personol fel y'u nodir yn fanwl yn Rhannau 6 a 7 o'r ddogfen hon. Sef:
  - i. Rhoi argymhellion penodol a gafwyd gan y Tasglu Twyll Yswiriant ar waith;
  - ii. Llogi ar gredyd;
  - iii. Hysbysu'n fuan ynghylch hawliadau;
  - iv. Adsefydlu;
  - v. Gallu adennill alldaliadau; a
  - vi. Cyflwyno system o fath Barème
9. Byddem yn pwysu ar ymatebwyr i ystyried y materion hyn yn ogystal â'r mesurau penodol a nodir ym mharagraffau 1 i 3 uchod.

## **Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal ('atchwip')**

Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr

10. Mae'r llywodraeth yn ystyried y diwygiadau hyn yn becyn cydlynol (ond un i'w fireinio yn ôl yr angen yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad) sydd ei angen er mwyn mynd i'r afael â'r broblem gymhleth a achosir gan hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd. Fodd bynnag, byddem hefyd yn eich annog i ystyried yr holl fesurau, nid fel pecyn yn unig ond gyda rhai eraill ac yn unigol hefyd.

## Rhagarweiniad

1. Mae'r llywodraeth yn ymgynghori ynghylch nifer o ddiwygiadau sy'n berthnasol i'r broses hawliadau am anafiadau personol gyda'r nod o gymhell pobl i beidio â gwneud mân hawliadau, hawliadau wedi'u gorliwio a hawliau twyllodrus am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd. Mae'r gost i fodurwyr yn sgil ymdrin â'r hawliadau hyn yn anghymesur â lefel yr anaf a ddiodefir ac mae'n cyfrannu at gost uchel premiymau yswiriant modur.
2. Yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, bydd y llywodraeth yn mireinio'r mesurau y bydd gofyn cael deddfwriaeth sylfaenol ar eu cyfer i'w cynnwys mewn bil i'w hystyried gan y Senedd. Bydd gweddill y mesur (cynnydd yn y terfyn ar gyfer hawliadau bychain) yn cael ei fireinio i'w roi ar waith drwy newidiadau i Reolau'r Weithdrefn Sifil.
3. Anelir yr ymgynghoriad at bob rhanddeiliad sydd â diddordeb yn y broses hawliadau am anafiadau personol, ac yn arbennig at y rheini sy'n ymwneud â'r broses hawlio am fân anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd yng Nghymru a Lloegr. Mae papur ymgynghori Saesneg ar gael yn: <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/reforming-soft-tissue-injury-claims>.
4. Mae Asesiad o'r Effeithiau a ddaw gyda'r papur yn dangos bod y diwygiadau'n debygol o effeithio'n arbennig ar ddeiliaid polisi yswiriant modur, ar gwmnïau yswiriant ac ar hawlwrwyr am anafiadau personol yn sgil damwain ffordd, ac y disgwylir i ddeiliaid polisi fod ar eu hennill yn sgil y rhan fwyaf o'r arian a arbedir. Mae'r cynigion yn debygol o arwain at gostau neu arbedion ychwanegol i nifer o ddarparwyr gwasanaethau gan gynnwys (ond nid y rhain yn unig) cyfreithwyr anafiadau personol, arbenigwyr meddygol a chyrrff sy'n darparu adroddiadau meddygol, yn ogystal ag elusennau, y sector gwirfoddol a'r sector cyhoeddus. Mae rhagor o wybodaeth am yr Asesiad o'r Effeithiau yn Rhan 10 o'r ymgynghoriad hwn ac mae copïau ohono ar gael yma: <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/reforming-soft-tissue-injury-claims>. Byddem yn falch iawn o gael sylwadau am yr Asesiad o'r Effeithiau a'r cwestiynau penodol sydd ynddo.
5. Anfonir copïau o'r papur ymgynghori hwn at:  
Y Grŵp Gweithredu ar Fynediad at Gyfiawnder  
Cymdeithas Yswirwyr Prydain  
Cymdeithas y Cwmnïau Rheoli Hawliadau Rheoledig  
Cymdeithas Barnwyr Rhanbarth Ei Mawrhydi  
Cymdeithasau y Cyrff sy'n Darparu Adroddiadau Meddygol  
Cymdeithas y Cyfreithwyr Anafiadau Personol  
Cymdeithas y Rheolwyr Hawliadau Proffesiynol  
Cymdeithas y Cwmnïau Rheoli Hawliadau Rheoledig  
Cyngor y Bar  
Siambrau Masnach Prydain

Consortiwm Manwerthu Prydain  
Cymdeithas Broceriaid Yswiriant Prydain  
Cymdeithas Feddygol Prydain  
Cymdeithas Orthopedig Prydain  
Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi  
Cyngor ar Bopeth  
Heddlu Dinas Llundain – Adran Gorfodi Twyll Yswiriant  
Cymdeithas Defnyddwyr y Llysoedd Sifil  
Y Cyngor Cyfiawnder Sifil  
Pwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Sifil  
Claims Portal Limited  
Y Cyngor Safonau Hawliadau  
Cydffederasiwn Diwydiant Prydain  
Cyngor Barnwyr Cylchdaith Ei Mawrhydi  
Y Sefydliad Llogi ar Gredyd  
Hawliau Anabledd y Deyrnas Unedig  
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol  
Ffederasiwn y Busnesau Bach  
Fforwm y Cyfreithwyr Anafiadau Cymhleth  
Fforwm y Cyfreithwyr Yswiriant  
Y Cyngor Meddygol Cyffredinol  
Y Swyddfa Twyll Yswiriant  
Cymdeithas y Cyfreithwyr  
Cymdeithas Llywodraeth Leol  
MedCo Registration Solutions  
Swyddfa'r Yswirwyr Moduro  
Cymdeithas y Cyfreithwyr Damweiniau Modur  
Cymdeithas y Bar ar gyfer Anafiadau Personol  
Thatcham – y Ganolfan Ymchwil Atgyweirio drwy Yswiriant Modur  
Cyngres yr Undebau Llafur  
Transport for London  
Llywodraeth Cymru

6. Ni fwriedir i'r rhestr hon gynnwys pawb na chau neb allan a byddwn yn croesawu ymatebion gan bawb sydd â diddordeb yn y materion a drafodir yn y papur hwn a'r Aseiad o'r Effeithiau, neu sydd â safbwynt yn eu cylch.

## **Rhan 1 – Nodi'r materion a diffinio anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd**

### **Y Cefndir**

7. Mae'r llywodraeth, fel ei rhagflaenydd, wedi ymrwmo i fynd i'r afael â nifer a chost uchel hawliadau isel eu gwerth am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd. Hawliadau am atchwip yw'r mwyafrif helaeth o'r rhain. Dyna pam, dros y chwe blynedd ddiwethaf, mae gweinidogion a swyddogion wedi cwrdd ag ystod eang o randdeiliaid i drafod nifer uchel parhaus hawliadau o'r fath, a'u heffaith ar gost yswiriant modur. Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi cyflwyno nifer o ddiwygiadau i ostwng costau a sicrhau bod y system yn dod yn fwy cytbwys eto - rhywbeth mawr ei angen.
8. Rhoddwyd diwygiadau 'Jackson'<sup>3</sup> ar waith ar 1 Ebrill 2013 drwy ddarpariaethau yn Rhan 2 Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy 2012. Mae'r mesurau hyn wedi gostwng costau cyfreitha sifil yn gyffredinol, a chostau anafiadau personol yn benodol, drwy ddiwygio'r ffordd y mae cytundebau ffioedd amodol 'dim ennil, dim ffi' yn gweithio a chyflwyno gwaharddiad ar dalu a derbyn ffioedd atgyfeirio mewn achosion anafiadau personol. Cyflwynwyd diwygiadau ychwanegol ochr yn ochr â'r mesurau hyn i ostwng y costau adenilladwy penodedig sydd ar gael i gyfreithwyr sy'n ymdrin â hawliadau am anafiadau personol, i wahardd cyfreithwyr a chwmnïau sy'n rheoli hawliadau rhag cynnig cymhellion ariannol a chymhellion eraill i bobl hawlio, ac i roi pwerau i'r llysoedd wrthod yn llwyr hawliadau sy'n anonest yn eu hanfod.
9. Rhoddwyd cyfres arall o ddiwygiadau ar waith ar 6 Ebrill 2015 i wella safon ac annibyniaeth adroddiadau meddygol cychwynnol a ddefnyddir yn dystiolaeth ar gyfer hawliadau isel eu gwerth am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd. Cyflwynwyd Porth 'MedCo' drwy ddiwygiadau i'r Protocol Cyn-Achos ar gyfer Hawliadau Isel eu Gwerth am Anafiadau Personol yn sgil Damweiniau ar y Ffyrdd. Cwmni 'heb fryd ar wneud elw' ym mherchnogaeth y diwydiant yw 'MedCo' sy'n goruchwyllo gwelliannau i safonau adroddiadau meddygol drwy achredu arbenigwyr meddygol. Mae hefyd yn gweithredu'r Porth TG a ddefnyddir i gael gafael ar adroddiadau meddygol cost-benodedig cychwynnol ac annibynnol.
10. Er gwaetha'r camau hyn, mae nifer yr hawliadau am anafiadau personol yn sgil damwain ffordd yn y Deyrnas Unedig wedi aros yn sefydlog dros y tair blynedd diwethaf ac mae dros 50% yn uwch nag yr oedd 10 mlynedd yn ôl (460,000<sup>4</sup> wedi'u cofrestru yn 2005/06 o'i gymharu â 770,000<sup>5</sup> wedi'u cofrestru yn 2015/16). Mae'r cynnydd hwn dros y degawd diwethaf wedi cyd-daro â gostyngiad yn nifer y

---

<sup>3</sup> Cynhaliodd yr Arglwydd Ustus Jackson adolygiad o gostau cyfreitha sifil yng ngoleuni pryderon eu bod wedi codi'n ormodol. Cyflwynwyd ei adroddiad terfynol ym mis Ionawr 2010. Gwnaeth yr Arglwydd Ustus Jackson nifer o argymhellion a dderbyniwyd gan y llywodraeth. Bwriad y diwygiadau oedd sicrhau bod costau'n fwy cymesur, gan annog pobl i beidio â dwyn achosion diangen neu anhaeddiannol.

<sup>4</sup> <http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20080107205404/http://www.dwp.gov.uk/cru/performance.asp>

<sup>5</sup> [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/516771/cases-registered-cru-2014-15.csv/preview](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/516771/cases-registered-cru-2014-15.csv/preview)



damweiniau ar y ffyrdd sy'n cael eu cofnodi gyda'r heddlu o oddeutu 190,000<sup>6</sup> yn 2006 i oddeutu 142,000<sup>7</sup> yn 2015.

### **Diogelwch Cerbydau**

11. Mae'r ymchwil a gyhoeddwyd gan y Tasglu Twyll Yswiriant<sup>8</sup> yn dangos, er bod ar gyfartaledd 79% yn fwy o geir fesul cilomedr ar ein ffyrdd nag yng ngwledydd eraill yr Undeb Ewropeaidd, fod llai o ddamweiniau angheuol neu ddirifol o safbwynt cyfrannol. Mae hyn yn golygu mai'r Deyrnas Unedig yw un o'r manau mwyaf diogel i yrru ynddo yn Ewrop.
12. Yn Ffrainc, mae'r system iawndal wedi'i seilio ar ddarparu tystiolaeth wrthrychol gan arbenigwyr meddygol annibynnol, ac fe ddyfernir taliadau yn unol â'r symiau penodedig a gyhoeddir yn ganllaw mewn tabl o iawndaliadau. Yn 2004 mewn astudiaeth draws Ewropeaidd<sup>9</sup> dangoswyd bod nifer sylweddol lai o hawliadau am fân achosion trawma serfigol ('atchwip') nag yn y Deyrnas Unedig, er bod nifer debyg o gerbydau ar y ffyrdd. Er nad oes ffigurau mwy diweddar ar gael ar gyfer Ffrainc o ran nifer yr hawliadau, gwyddom fod premiymau yswiriant Ffrainc yn dal yn 40% yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru a Lloegr.<sup>10</sup>
13. Ers 2006, mae diogelwch cerbydau hefyd wedi gwella'n sylweddol, a nifer gynyddol o gerbydau newydd bellach yn cynnwys seddi ac ategion pen sydd wedi'u gosod yn benodol er mwyn sicrhau cyn lleied o anafiadau â phosibl yn sgil damweiniau ar gyflymder isel ar y ffyrdd. Datblygiadau eraill o ran diogelwch yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf yw dylunio ceir sy'n amsugno ynni a chyflwyno systemau awtomatig i rag-weld gwrthdrawiad sy'n gallu rheoli systemau llywio a brecio cerbyd er mwyn osgoi gwrthdrawiadau ar gyflymder isel.
14. Mae datblygiadau tebyg o ran diogelwch cerbydau wedi'u cyflwyno hefyd mewn awdurdodaethau eraill lle maent wedi cyfrannu at ostwng nifer y damweiniau a'r anafiadau. Er enghraifft yn y Ffindir, cyrhaeddodd nifer yr anafiadau a gofnodwyd ar ôl damweiniau ar y ffyrdd ei anterth yn 2008 pan gafwyd oddeutu 8,000 o anafiadau. Ers hynny, mae'r ffigurau wedi bod yn gostwng yn gyson a rhyw 6,800 o anafiadau'n cael eu cofnodi yn sgil damweiniau ar y ffyrdd yn 2013. Nodwyd bod dylunio'r cerbydau'n well o ran eu diogelwch yn ffactor a oedd wedi cyfrannu at y gostyngiad hwn.<sup>11</sup> Dylai'r datblygiadau hyn o ran diogelwch hefyd arwain at lai o hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ar y ffordd ar y lefel isaf yng Nghymru a Lloegr, yn enwedig wrth inni weld cynnydd yn nifer y ceir ar y ffyrdd sy'n cynnwys y gwelliannau diogelwch hyn.

---

<sup>6</sup> [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/461863/ras10013.xls](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/461863/ras10013.xls)

<sup>7</sup> [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/497176/ras45004.xls](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/497176/ras45004.xls)

<sup>8</sup> <https://www.gov.uk/government/groups/insurance-fraud-taskforce>

<sup>9</sup> [www.svv.ch/sites/default/files/document/file/CEA\\_HWS-Studie\\_englisch](http://www.svv.ch/sites/default/files/document/file/CEA_HWS-Studie_englisch).

<sup>10</sup> Paragraff 2.37, Adroddiad y Tasglu Twyll Yswiriant:

[https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/494105/PU1817\\_Insurance\\_Fraud\\_Taskforce.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/494105/PU1817_Insurance_Fraud_Taskforce.pdf)

<sup>11</sup> [http://www.trafi.fi/filebank/a/1385544081/aacede60b181fe7444e0cd3d57ddfc51/13667-Trafi\\_Tieliikenteen\\_turvallisuuskatsaus\\_2013\\_eng.pdf](http://www.trafi.fi/filebank/a/1385544081/aacede60b181fe7444e0cd3d57ddfc51/13667-Trafi_Tieliikenteen_turvallisuuskatsaus_2013_eng.pdf)

## **Y Broblem**

15. Mae nifer yr hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yng Nghymru a Lloegr yn rhy uchel o hyd. Mae nifer o resymau dros hyn, gan gynnwys ei bod yn anodd adnabod ac asesu hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal. Mae hyn yn golygu y bydd hawlwr gan amlaf yn gwybod mwy na diffynyddion ynghylch a ydynt wedi cael anaf neu beidio, ac os felly pa mor ddifrifol yw'r anaf. Mae'r wybodaeth asymetrig hon, a'r ffaith fod iawndal ar gael ar lefelau y mae llawer o hawlwr yn amlwg yn eu hystyried yn arwyddocaol, yn golygu bod cymhellion ariannol sylweddol i hawlwr ddwyn achosion sy'n ymwneud ag anafiadau cymharol fân, neu i orliwio difrifoldeb eu hanaf. Pe nai bai PSLA ar gael neu petai'n anos cael gafael arno, byddai'r cymhellion hyn yn llai o lawer.
16. Yn ogystal â hyn, o dan y trefniadau presennol, ni fydd hawlwr llwyddiannus yn gorfod ysgwyddo cost dwyn hawliad. Yn hytrach, y diffynyddion aflwyddiannus sy'n talu'r gost hon. Ond, oherwydd ei bod yn anodd iawn gwrthbrofi hawliadau am anaf i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd, bydd diffynyddion sy'n gwrthwynebu hawliadau o'r fath yn debygol o gynyddu cyfanswm eu costau heb i hynny gynyddu'n sylweddol eu siawns o lwyddo. Felly, o dan amgylchiadau o'r fath, ac yn enwedig ar gyfer hawliadau is eu gwerth, gallai fod yn fwy cost-effeithiol i ddiffynyddion dderbyn atebolrwydd heb wrthwynebu'r hawliad gan drosglwyddo'r costau dan sylw i ddeiliaid yswiriant polisi moduro.
17. Felly, mewn achosion is eu gwerth, byddai symud achosion i'r trac hawliadau bychain lle nad oes modd adennill ffioedd cyfreithiol - sef bwriad y llywodraeth - yn golygu y byddai penderfyniadau ynghylch bwrw ymlaen â'u hawliad bellach o fudd ariannol uniongyrchol i hawlwr yn yr ystyr y byddent yn gyfrifol am eu costau eu hunain. Mae hefyd yn werth nodi y byddai pob hawliad â chyfnod prognosis o 12 mis neu lai yn trosglwyddo'n awtomatig i'r trac hawliadau bychain dan y tariff arfaethedig newydd (gweler Rhan 2 a 3 o'r ddogfen hon am ragor o fanylion), pa un ai a bod y mesur i gynyddu'r terfyn ar gyfer hawliadau bychain ar waith ar yr un pryd ai peidio.
18. Mae'r system bresennol hefyd yn caniatáu i bartion setlo hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd heb i'r hawlwr gyflwyno tystiolaeth feddygol i'r diffynnydd. Mae costau ymchwilio i'r hawliad (a'i herio yn y llys) yn aml yn gallu cymell diffynyddion i setlo heb gael y wybodaeth hon, ac mae pobl yn gweld setlo'n opsiwn sy'n fwy masnachol hyfyw. Mae hyn wedi arwain at sefyllfa lle nad yw adroddiadau meddygol bob tro'n cael eu defnyddio'n dystiolaeth ar gyfer hawliadau, ac mae hyn yn ei dro'n gallu cymell pobl i wneud mân hawliadau, hawliadau sy'n cael eu gorliwio neu rai twyllodrus. Felly, byddai ei gwneud yn orfodol i hawlwr gael adroddiad meddygol yn dystiolaeth ar gyfer eu hawliadau'n helpu i rwystro hawliadau o'r fath yn y dyfodol.
19. Bydd y rownd bresennol o ddiwygiadau'n adeiladu ar y diwygiadau blaenorol a restrwyd uchod i fynd i'r afael â phroblem barhaus mân hawliadau lle bydd yr iawndal a delir yn gwbl anghymesur â'r anaf a ddioddefwyd. Yn benodol, fe'u targedir at hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd, ac mewn rhai cylchoedd, mae wedi bod yn ddiwylliannol dderbyniol hawlio am anafiadau dibwys iawn, a hynny weithiau'n dwyllodrus.
20. Mae lefel yr iawndal a'r costau a delir o ganlyniad i nifer uchel yr hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn costio ar raddfa ehangach i fodurwr oherwydd bod premiymau yswiriant modur yn cynyddu. Gan fod yswiriant modur yn orfodol, mae hyn yn effeithio ar bob modurwr yng Nghymru a Lloegr. Bydd codi'r terfyn ar gyfer mân hawliadau gyda golwg ar hawliadau am anafiadau personol, ochr yn ochr â gwahardd

cynigion cyn prawf meddygol, yn tynnu cymhellion ac yn tynnu costau sylweddol o'r broses. Mae'r mesurau hyn hefyd yn debygol o annog pobl i ystyried rhagoriaethau hawliadau unigol gan ddiffynyddion.

### **Diffinio hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd**

21. Mae'n bwysig bod yn glir ynghylch pa hawliadau y bydd y diwygiadau hyn yn effeithio arnynt. Mae'r llywodraeth yn awyddus i glywed barn ymatebwyr ynghylch a yw'r diffiniad isod yn hwyluso amcanion y llywodraeth ar gyfer y diwygiadau hyn yn effeithiol.
22. Yn 2014, bu'r llywodraeth yn cydweithio'n agos â grŵp o randdeiliaid arbenigol o bob rhan o'r sector anafiadau personol er mwyn datblygu diffiniad i'w gynnwys yn y Protocol Cyn-Achos ar gyfer Hawliadau Isel eu Gwerth am Anafiadau Personol mewn Damweiniau ar y Ffyrdd (RTA PAP). Cynlluniwyd y diffiniad hwn yn benodol i adnabod hawliadau perthnasol isel eu gwerth am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd a ddefnyddir ym Mhorth TG MedCo yng nghyswllt adroddiadau meddygol cychwynol. Hawliadau am anaf atchwip yw'r mwyafrif helaeth o hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd, sef yr hawliadau y mae'r llywodraeth yn arbennig o awyddus i fynd i'r afael â hwy drwy'r diwygiadau newydd hyn.
23. Mae'r diffiniad hwn wedi bod yn effeithiol o ran adnabod yr hawliadau perthnasol at ddibenion MedCo ac mae'r llywodraeth yn bwriadu ei ddefnyddio hefyd ar gyfer y diwygiadau hyn. Y diffiniad yw:  
*'RTA PAP 16(A) soft tissue injury claim' means a claim brought by an occupant of a motor vehicle where the significant physical injury caused is a soft tissue injury and includes claims where there is a minor psychological injury secondary in significance to the physical injury.*
24. Ein barn ni, yn amodol ar y pwynt isod ynghylch anaf seicolegol, yw bod defnyddio'r diffiniad sydd ar gael eisoes yn ffordd synhwyrol a phragmatig o fynd o'i chwmpas hi ac na fyddai datblygu diffiniad newydd ond yn achosi dryswch diangen. Felly, mae'r llywodraeth yn cynnig ei ddefnyddio'n sail ar gyfer y diwygiadau hyn. (Rydym wedi'i ddefnyddio wrth benderfynu pa ddata i'w defnyddio, ac wrth ddadansoddi'r data hynny, sy'n ymddangos yn yr Asesiad o'r Effeithiau sy'n cyd-fynd â'r ymgynghoriad hwn).

**Cwestiwn 1: A ddylid defnyddio'r diffiniad ym mharagraff 17 i ddynodi'r hawliadau yr effeithir arnynt gan y newidiadau i lefel yr iawndal a delir am boen, dioddef a cholli amwynder mewn mân hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd, a chyflwyno tariff penodedig o iawndaliadau cymesur ar gyfer pob math arall o hawliad?**

**A fydddechystal â rhoi eich rhesymau, ac unrhyw ddiffiniad gwahanol y dylid ei ystyried.**

### **Estyn y diffiniad i gynnwys hawliadau seicolegol fel prif anaf**

25. Wrth edrych ar hyn yn fwy manwl, mae dau brif grŵp o hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd a gynhwysir gan y diffiniad uchod. Mae'r grŵp cyntaf yn cynnwys hawliadau lle nad yw'r anaf yr hawlir amdano ond yn anaf i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd, ond mae'r ail hefyd yn cynnwys trawma seicolegol fel elfen eilradd o'r hawliad.

26. Mae'r diffiniad presennol o "hawliad am anafiadau i'r feinwe feddal" yn cynnwys hawliad am fân anaf seicolegol os yw'r anaf hwnnw yn eilradd o ran ei arwyddocâd i'r anaf corfforol a gafwyd ond nid yw'n cynnwys anaf seicolegol os yw'r anaf hwnnw'n cael ei ystyried yn brif anaf. Mae'r llywodraeth wedi bod yn monitro nifer yr hawliadau sy'n cynnwys elfen 'seicolegol' ac wedi gweld bod nifer yr hawliadau yn y grŵp hwn yn isel iawn ar hyn o bryd. Wedi dweud hynny, rhwng 2012 a 2015, mae data gan y Cyngorydd Canlyniadau Hawliadau<sup>12</sup> yn awgrymu bod nifer yr hawliadau a oedd yn cynnwys anafiadau seicolegol fel anaf eilradd wedi cynyddu oddeutu 5%.
27. Mae tystiolaeth storïol gan y diwydiant yswiriant yn awgrymu mai ychydig iawn o hawliadau isel eu gwerth sydd ar hyn o bryd lle'r ystyrir bod yr anaf seicoleg yn brif anaf. Serch hynny, mae hwn yn faes a allai weld hawliadau yn y dyfodol yn cael eu chwyddo / symud i gategori arall ar ôl rhoi'r diwygiadau newydd ar waith. Fel sy'n wir am fân anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damweiniau ar y ffyrdd, mae diagnosis o drawma seicolegol wedi'i seilio'n gyffredinol ar ddisgrifiad goddrychol o symptomau sydd â chysylltiad achosol ag anaf honedig yn sgil damwain ar y ffordd. Yn gyffredinol, bydd iawndal a ddyfernir am PSLA ar gyfer ar hawliadau am drawma seicolegol ar lefelau tebyg i'r rheini a ddyfernir ar gyfer hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal.
28. Mae estyn y diffiniad o hawliadau y bydd y diwygiadau'n effeithio arnynt i'r hawliadau hynny lle mai'r anaf seicolegol yw'r brif elfen mewn hawliad am anaf i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd, sy'n bosibl drwy wneud newidiadau i'r RTA PAP, yn gyson â nod y llywodraeth i dorri costau hawliadau isel eu gwerth. Mae'r un dadleuon ar gyfer diwygiadau i hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd yn gyffredinol berthnasol i'r rheini ar gyfer anafiadau seicolegol isel eu gwerth.

**Cwestiwn 2: A ddylai'r diffiniad ym mharagraff 17 gael ei estyn i gynnwys hawliadau am drawma seicolegol lle mai'r brif elfen mewn mân hawliad am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd fydd elfen seicolegol?**

**A fydddech cystal â rhoi rhagor o wybodaeth i gefnogi'ch ateb, gan gynnwys, os yw'n berthnasol, sut gellid diwygio'r diffiniad hwn i grisialu'r dosbarthiad hwn o hawliad mewn ffordd effeithiol.**

### **Diffiniad o 'fân' hawliadau**

29. Er mwyn gweithredu diwygiadau i'r maes sy'n ymwneud â mân anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd yn effeithiol, mae angen inni benderfynu beth yw ystyr 'mân'. Yn y pen draw, pennir gwerth hawliad i raddau helaeth drwy gyfrwng y diagnosis cychwynnol a'r prognosis tebygol ynglŷn ag am faint y bydd y symptomau sy'n gysylltiedig â'r ddamwain yn debygol o effeithio ar yr hawlydd. Felly, y ffordd fwyaf priodol o asesu natur yr anafiadau a fydd yn rhan o'r mesurau hyn ym marn y llywodraeth yw ystyried a gwneud penderfyniadau yn ôl pa mor hir y bydd anaf yr hawlydd yn debygol o bara.
30. Wrth ystyried hyn, mae'r llywodraeth wedi edrych ar ddau opsiwn ac rydym yn ceisio barn rhanddeiliaid arnynt. Sef:

<sup>12</sup> Mae data'r Cyngorydd yn cipio rhywfaint o ddata am hawliadau 20 o wahanol yswirwyr, gydag o leiaf 5 o'r rheini ymhlith yr 20 prif yswiriwr ar sail premiymau domestig ysgrifenedig gros yn 2014.

- i. Anaf sy'n para hyd at a chan gynnwys chwe mis. Dyma'r opsiwn sydd orau gan y llywodraeth. Mae'r llywodraeth yn credu mai'r opsiwn hwn sy'n cynnig y cydbwysedd gorau rhwng cyfyngu ar yr iawndal sy'n daladwy i unigolion o'i gymharu â'r costau i fodurwyr. Swm yr iawndal a ddyfernir am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd sy'n para hyd at a chan gynnwys chwe mis (heb neu gyda hawliadau seicolegol), ar gyfartaledd, yw oddeutu £1,800.
  - ii. Anaf sy'n para hyd at a chan gynnwys naw mis. Mae'r llywodraeth wedi ystyried a ddylai'r diffiniad o fân hawliad fod hyd at a chan gynnwys naw mis. Yr iawndal a ddyfernir ar gyfartaledd ar gyfer hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd sy'n para hyd at a chan gynnwys naw mis (gyda neu heb hawliadau seicolegol) yw oddeutu £2,100.
31. Wedi pwyso a mesur, barn y llywodraeth yw y byddai diffinio 'mân' fel 'hyd at a chan gynnwys chwe mis' yn ffordd briodol o fwrw ymlaen. Credwn y byddai cyfnod hwy na chwe mis yn cael effaith anghymesur ar hawlwyr dilys sydd ag anafiadau mwy difrifol.

**Cwestiwn 3: Mae'r llywodraeth yn cyflwyno dau opsiwn i leihau neu ddileu swm yr iawndal a delir am boen, dioddef a cholli amwynder mewn mân hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd. A ddylid diffinio cwmpas mân anafiadau fel cyfnod o chwe mis neu lai?**

**Esboniwch eich rhesymau, ynghyd ag unrhyw awgrymiadau amgen ar gyfer diffinio'r cwmpas.**

**Cwestiwn 4: Fel arall, a ddylai'r llywodraeth ystyried rhoi'r diwygiadau hyn ar waith ar gyfer hawliadau am gyfnodau o naw mis neu lai?**

**Esboniwch eich rhesymau, ynghyd ag unrhyw awgrymiadau amgen ar gyfer diffinio'r cwmpas.**

## **Rhan 2 – Lleihau nifer a chost mân hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd**

32. Mae'r llywodraeth wedi datgan sawl gwaith ei bod yn bwriadu mynd i'r afael â'r nifer a chost uchel parhaus mân hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd. Er gwaethaf diwygiadau blaenorol y llywodraeth, mae mân hawliadau, hawliadau wedi'u gorliwio neu rai twyllodrus am anafiadau personol ar ôl damweiniau ar gyflymder isel ar y ffordd yn broblem o hyd. Mae nifer yr hawliadau am anafiadau personol yn sgil damwain ffordd yn dal yn fwy na 50% yn uwch nag yr oeddent 10 mlynedd yn ôl. Mae hyn er gwaetha'r ffaith bod cerbydau'n llawer mwy diogel erbyn hyn a llai o ddamweiniau'n cael eu cofnodi.
33. Rydym wedi ymrwymo o hyd i sicrhau bod hawlwr sydd ag anafiadau mwy difrifol i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd yn dal i allu cael lefel briodol o iawndal am eu poen a'u dioddef. Rhoddir rhagor o fanylion am sut mae'r llywodraeth yn bwriadu gwneud hyn yn Rhan 3 o'r ymgynghoriad hwn.
34. Fel rhan o'i phhecyn diwygio i fynd i'r afael â nifer a chost uchel parhaus hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd, mae'r llywodraeth yn ystyried dau opsiwn i ymdrin â mân hawliadau fel y'u diffinnir yn Rhan 1 o'r ddogfen ymgynghori hon. Nodir manylion yr opsiynau hyn isod.

### **Opsiwn 1: Dileu'r iawndal am PSLA ar gyfer pob mân hawliad am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd**

35. Ym mis Tachwedd 2015, cyhoeddodd y llywodraeth ragor o ddiwygiadau i fynd i'r afael â nifer uchel yr hawliadau hyn a'u cost. Roedd y cyhoeddiad yn cynnwys mesur i ddileu'r hawl i gael iawndal am PSLA ar gyfer mân anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd er mwyn mynd i'r afael â'r costau sylweddol wrth ymdrin â'r hawliadau hyn. Barn y llywodraeth yw bod lefel yr iawndal a ddyfernir i hawlwr yn gwbl anghymesur â lefel y boen a'r dioddef y bydd y rhan fwyaf o bobl yn eu hwynebu mewn gwirionedd ar ôl damwain ffordd ar gyflymder isel.
36. Byddai rhoi mesur o'r fath ar waith yn golygu na fyddai'r rheini y byddai eu hawliadau'n dod o fewn ei gwmpas yn gallu hawlio iawndal am PSLA rhagor. Nid yw hyn yn golygu na fyddai'r hawlwr hyn yn gymwys i gael rhyw fath o iawndal, gan y byddent yn dal yn gallu hawlio iawndal am unrhyw dreuliau, megis costau triniaeth feddygol neu gollï enillion.
37. Bydd dileu'r iawndal am PSLA ar gyfer mân hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd yn mynd i'r afael â'r cymhellion ar gyfer nifer uchel hawliadau o'r fath, ac yn lleihau'r gost o ymdrin â hwy. Byddai hyn o fudd i ddefnyddwyr drwy breimymau yswiriant modur is.

## **Opsiwn 2: Cyflwyno swm iawndal penodedig ar gyfer mân hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd**

38. Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i leihau nifer y mân hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd, a chost yr hawliadau hynny, a dyna pam y cyhoeddodd y mesur i ddileu'r iawndal am PSLA ar gyfer yr hawliadau hyn yn Natganiad yr Hydref 2015. Mae'r llywodraeth o'r farn fod dadleuon sylweddol dros ddefnyddio'r dull radical hwn. Fodd bynnag, yn dilyn y cyhoeddiad ac ar ôl trafod â grwpiau cynrychioladol rhanddeiliaid, rydym yn ymwybodol o'r cryn bryder a dadlau sydd wedi bod ymysg rhai rhanddeiliaid ynglŷn â dileu'r iawndal am yr hawliadau hyn yn llwyr, ac a fyddai modd cyflawni amcanion y llywodraeth drwy ddefnyddio dull gwahanol.
39. Er bod yr iawndal a delir i hawlwr am y mân hawliadau hyn yn rhy uchel ar hyn o bryd o ystyried lefel eu poen a'u dioddef, mae'r llywodraeth yn cydnabod y gall fod achos dros roi rywfaint o iawndal am PSLA i'r rheini ag anafiadau gwirioneddol (er mai mân rai ydynt).
40. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu opsiwn gwahanol er mwyn lleihau costau'r mân hawliadau hyn, ond gan barhau i roi swm iawndal penodedig i hawlwr sydd wedi'u hanafu go iawn. Mae'r opsiwn hwn yn cyd-fynd â chynllun y llywodraeth i gyflwyno system newydd o dariff taliadau iawndal penodedig ar gyfer anafiadau mwy difrifol, fel y nodir yn Rhan 3 o'r ddogfen hon.
41. Fel y bydd y mesur i ddefnyddio tariff penodedig ar gyfer anafiadau mwy difrifol yn ei wneud, bydd y swm penodedig ar gyfer mân hawliadau yn helpu i reoli costau drwy roi mwy o sicrwydd i yswirwyr ynghylch cost yr iawndal ynghlwm wrth bob hawliad. Bydd hefyd yn gwarchod rhag tansetto drwy sicrhau bod hawlwr yn ymwybodol o flaen llaw am y lefel briodol o iawndal sy'n ddyledus iddynt. Mae hyn yn arbennig o bwysig os bydd hawlwr yn dewis bwrw ymlaen â'u hawliad eu hunain drwy'r trac hawliadau bychain.
42. Mae'r lefel briodol o iawndal i'w dyfarnu i fân hawliadau wedi cael ei hystyried. Mae Canllawiau'r Coleg Barnwrol (12<sup>fed</sup> argraffiad) yn nodi y dylai'r iawndal am PSLA ar gyfer mân hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd ddechrau ar lefel o £200. Mae'r llywodraeth wedi ystyried hyn ac rydym yn cynnig y dylid gosod y swm penodedig ar gyfer mân hawliadau ar lefel o £400 (neu £425 os yw'r hawliad yn cynnwys elfen seicolegol hefyd). Serch hynny, hoffem glywed barn rhanddeiliaid ar y ffigur(au) a awgrymir.

**Cwestiwn 5: A fydddech cystal â nodi eich barn ar b'un a ddylid dileu'r iawndal a delir am boen, dioddef a cholli amwynder o fân hawliadau fel y'u diffinnir yn Rhan 1 o'r ymgynghoriad hwn?**

**Esboniwch eich rhesymau.**

**Cwestiwn 6: A fydddech cystal â rhoi eich barn ar b'un a ddylid cyflwyno swm penodedig i gwmpasu mân hawliadau fel y'u diffinnir yn Rhan 1 o'r ymgynghoriad hwn?**

**Esboniwch eich rhesymau.**

**Cwestiwn 7: A fydddech cystal â rhoi eich barn ar gynigion y llywodraeth i bennu swm yr iawndal a delir am boen, dioddef a cholli amwynder ar gyfer mân hawliadau ar £400 ac ar £425 os yw'r hawliad yn cynnwys elfen seicolegol.**

**Esboniwch eich rhesymau.**

#### **Y broses ar gyfer asesu pa mor hir fydd anaf yn para**

43. Bydd tystiolaeth feddygol ategol a geir gan yr hawlydd yn hanfodol er mwyn asesu sut yr ymdrinnir â'r hawliad. Gallai'r broses o gael tystiolaeth feddygol fynd rhagddi mewn dwy ffordd, gan ddibynnu ar ba un o'r opsiynau uchod y penderfynir arno.
44. Mae'r llywodraeth wedi gweithio'n galed gyda phob sector o'r diwydiant anafiadau personol i sicrhau rhagor o annibyniaeth a gwella safonau yng nghyswllt adroddiadau meddygol. Mae rhoi diwygiadau MedCo ar waith wedi golygu bod modd sefydlu systemau i fonitro ystod eang o wybodaeth reoli, gan gyflwyno system achredu benodol yn gefn iddynt ar gyfer arbenigwyr meddygol. Mae data am hyd cyfnodau'r prognosis wrthi'n cael eu hastudio ynghyd â newidiadau mewn ymddygiad gyda golwg ar gynhyrchu adroddiadau meddygol. Bydd hyn yn help i MedCo gyda'i raglen orfodi drwyadl er mwyn sicrhau bod cyfnodau'r prognosis yn gywir. Bydd MedCo yn dal i fonitro adroddiadau meddygol i helpu gyda hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd, ar ôl rhoi'r diwygiadau hyn ar waith.

#### **Y dull diagnosis**

45. Gellid defnyddio'r 'dull diagnosis' pe bai'r llywodraeth yn penderfynu bwrw ymlaen â'r opsiwn o ddileu'r iawndal am PSLA o fân hawliadau. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu y byddai gofyn i hawlwr aros tan ddiwedd y cyfnod rhagnodedig (e.e. chwe mis) cyn cael adroddiad meddygol ategol drwy Borth MedCo. Byddai archwiliad ar y pwynt hwn yn galluogi'r arbenigwr meddygol i asesu a oedd yr hawlydd yn dal i ddioddef poen neu symptomau eraill a oedd yn gysylltiedig â'r anafiadau a gafwyd yn ystod damwain ffordd gynharach. Byddai'r adroddiad meddygol wedyn yn cael ei ddefnyddio i benderfynu a fyddai gan yr hawlydd yr hawl i hawlio ar gyfer colledion nad ydynt yn rhai PSLA yn unig, ynteu a fyddai'n gymwys fel arall am y cynllun tariff iawndal penodedig newydd ar gyfer anafiadau mwy difrifol.
46. Er mwyn rheoli'r costau sy'n gysylltiedig â'r hawliad, dim ond cost yr adroddiad meddygol chwe mis y byddai modd ei hadennill. Petai'r hawlydd yn dewis gofyn am adroddiad meddygol cyn hyn, ni fyddai modd iddo adennill cost yr adroddiad cynharach hwnnw. At hynny, gallai'r gofyniad i gael archwiliad meddygol ar bwynt penodol gael effaith gadarnhaol ar yr arfer o ddwyn hawliadau tua diwedd terfyn y cyfnod.
47. Byddai'r dull hwn yn helpu i reoli nifer uchel y mân hawliadau a wneir ar hyn o bryd. Mae wedi dod yn rhy hawdd i bobl wneud mân hawliad, hawliad wedi'i orliwio neu hyd yn oed hawliad twyllodrus, ac mae hawlwr yn dal i gael eu hannog i wneud hawliadau o'r fath. Gallai hefyd gael effaith gadarnhaol drwy helpu i hybu newid mawr ei angen yn y diwylliant hawlio yng Nghymru a Lloegr. Byddai hyn yn rhoi sicrwydd ynghylch pa bryd ar ôl damwain y dylid ceisio'r dystiolaeth feddygol a pha bryd y byddai'r hawliad (petai modd hawlio) yn dechrau.
48. Serch hynny, efallai o dan rai amgylchiadau na fyddai disgwyl chwe mis yn help i hawlydd. Gellid ystyried y gofyniad i'r hawlydd dalu am adroddiad cynharach (petai



angen un cyn chwe mis) yn ofyniad anghymesur petai'n ceisio gwasanaeth adsefydlu angenrheidiol neu pe na bai'n gallu gweithio a'i fod yn ceisio tâl am golli enillion. Mewn sefyllfaoedd fel hyn, gallai fod gofyn darparu adroddiad o'r fath beth bynnag yn dystiolaeth o'r colledion a hawliar (a bydd modd adennill y rhain o hyd). At hynny, yn ogystal â rhwystro pobl rhag cyflwyno mân hawliadau, hawliadau wedi'u gorliwio a hawliadau twyllodrus, gallai gofyniad o'r fath hefyd o bosibl gymell hawlwr sydd wedi cael anaf dilys i beidio â hawlio.

## **Y dull prognosis**

49. Mae'r ail opsiwn wedi'i seilio ar ddull 'prognosis' o ymdrin â thystiolaeth feddygol. Byddai hyn yn debyg i'r dull a ddefnyddir ar hyn o bryd i gael dystiolaeth feddygol yn gefn i hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd. Gallai'r opsiwn hwn gyd-fynd â chyflwyno system dariff newydd ar gyfer mân hawliadau (a rhai mwy difrifol) am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd, a'r opsiwn i ddileu'r iawndal am PSLA o fân hawliadau.
50. O dan y model prognosis, byddai gofyn o hyd i hawlwr geisio adroddiad meddygol yn dystiolaeth ar gyfer hawliadau drwy Borth MedCo a hynny ar adeg briodol ar ôl dechrau'r broses hawlio. Mae data'r diwydiant yn dangos mai'r cyfnod mwyaf cyffredin ar gyfer ceisio adroddiad meddygol yw rhwng tri a chwe mis ar ôl y ddamwain ffordd. Fel sy'n digwydd yn awr, bydd yr adroddiad hwn yn asesu unrhyw anaf ac yn cynnig prognosis ar gyfer pa mor hir y mae'n debygol o bara.
51. Mantais y dull hwn yw na fyddai hawlwr sydd ag anaf sy'n para chwe mis neu lai'n gorfod oedi cyn ceisio'r dystiolaeth feddygol angenrheidiol er mwyn cefnogi eu hawliad, un ai ar gyfer hawlio colledion y gellid eu hadennill megis cost triniaeth neu golli enillion, neu ar gyfer iawndal am PSLA (gan ddibynnu ar y penderfyniad terfynol ynghylch pa opsiwn y dylid ei ddewis). At hynny, byddai cyflwyno gofyniad i gael archwiliad meddygol ar bwynt penodol yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gwaith o fynd i'r afael â'r arfer o ddwyn hawliadau tua diwedd terfyn y cyfnod, a hynny'n aml heb dystiolaeth feddygol.
52. Byddai'r dull hwn hefyd yn parhau i gefnogi diwygiadau blaenorol y llywodraeth i wella safonau ac annibyniaeth adroddiadau meddygol a gyflwynir yn dystiolaeth ar gyfer hawliadau meddygol. Mae system MedCo yn casglu data defnyddiol ac wedi dechrau dadansoddi'r data hyn ynghylch cyfnodau'r prognosis cyfartalog ar gyfer hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd. Wrth i wybodaeth reoli MedCo wella, daw'n haws adnabod eithriadau a meysydd sy'n achosi problem ac yn benodol, a yw'r rhain yn berthnasol i arbenigwyr meddygol/Cyrff sy'n Darparu Adroddiadau Meddygol (MROs) penodol. Mae'r llywodraeth yn cefnogi gwaith MedCo a bydd yn sicrhau bod ganddo'r arfau priodol i adnabod a rheoli problemau fel hyn drwy ei bwyllgor adolygu gan gymheiriaid ac arbenigwyr a thrwy ddefnyddio sancsiynau os bydd y system yn cael ei chamddefnyddio.
53. Anhawster y dull hwn yw y byddai'n bosibl dwyn pwysau ar bobl i chwyddo'r prognosis fymryn y tu hwnt i'r cyfnodau a ddiffinnir ar gyfer 'mân' hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd. Er enghraifft, os diffinnir 'mân' fel hyd at a chan gynnwys chwe mis, mae'r cwestiwn yn codi ynghylch faint o hawliadau fyddai'n cael eu seilio ar gyfnod prognosis o saith mis, a'u bod felly'n gymwys i gael iawndal o dan system y tariff newydd. Fel y nodwyd uchod, bydd dadansoddi gwybodaeth reoli gan MedCo yn gam diogelu pwysig yn y maes hwn. Byddai cyflwyno tariff ar gyfer

hawliadau fel y'i nodir yn Rhan 3 o'r ddogfen ymgynghori hon hefyd yn gallu lliniaru chwyddo'r hawliadau fel hyn.

**Cwestiwn 8: Os bydd yr opsiwn i ddileu'r iawndal a delir am boen, dioddef a cholli amwynder o hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd yn cael ei ystyried, rhowch eich barn ar b'un a ddylid defnyddio'r system 'Diagnosis'.**

**Esboniwch eich rhesymau.**

**Cwestiwn 9: Os penderfynir bwrw ymlaen â'r naill opsiwn neu'r llall i fynd i'r afael â mân hawliadau (gweler Rhan 2 o'r ddogfen ymgynghori hon), a fyddech cystal â rhoi eich barn ar b'un a ddylid defnyddio'r system 'Prognosis'.**

**Esboniwch eich rhesymau.**

**Cwestiwn 10: A fyddai cyflwyno'r model 'diagnosis' yn helpu i reoli'r arfer lle bydd hawlwr yn dwyn eu hawliad yn hwyr yn y cyfnod cyfyngu?**

**Esboniwch eich rhesymau ac os ydych chi'n anghytuno, rhowch eich barn ar sut y dylid mynd i'r afael â hawliadau yr hysbysir yn eu cylch yn hwyr.**

### **Rhan 3: – Cyflwyno system tariff penodedig ar gyfer hawliadau eraill am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd**

54. Argymhellwyd tariff o iawndaliadau y mae modd eu rhag-weld gan yr Arglwydd Ustus Jackson yn ei adroddiad 'Review of Civil Litigation Costs: Final Report' yn 2010: Cyfeiriodd yr Arglwydd Ustus Jackson at y gwahanol systemau calibreiddio cyfrifiadurol a ddefnyddir eisoes, gan ddiffynyddion yn bennaf, i gyfrifo'r dyfarniadau ar gyfer iawndaliadau cyffredinol mewn hawliadau isel eu gwerth. Sefydlwyd gweithgor gan y Cyngor Cyfiawnder Sifil i ystyried hyn ond nid aeth y gwaith rhagddo, a hynny'n bennaf oherwydd y gwahaniaeth barn rhwng diffynyddion a hawlwr ynghylch y cyfraddau a ddefnyddir yn sail i'r calibreiddio.
55. Mae cyflwyno system dariff hefyd yn gyson â'r ffordd y mae nifer o awdurdodaethau eraill megis yr Eidal, Ffrainc, Sbaen, Sweden, Norwy a'r Ffindir wedi mynd ati i ymdrin â hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd. Mae'r awdurdodaethau hyn oll yn defnyddio amrywiadau ar dabl o iawndaliadau y mae modd eu rhag-weld, ac mae eu defnydd wedi arwain at effeithiau cadarnhaol ar nifer yr hawliadau a wneir ac ar gost premiymau yswiriant modur.
56. Yn yr Eidal, roedd problem gynyddol gyda hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damweiniau ar y ffyrdd ac roedd hyn, fel sy'n wir yng Nghymru a Lloegr yn awr, yn cael effaith niweidiol ar gost yswiriant modur. Cynyddodd premiymau yn yr Eidal 18% rhwng 2002 a 2009, o'u cymharu â chyfartaledd o 7% drwy weddill Ewrop. Ers cyflwyno system tariff iawndaliadau penodedig newydd yn 2012, mae nifer yr hawliadau yn yr Eidal wedi dechrau gostwng ac yn sgil hynny, mae premiymau yswiriant modur hefyd wedi gostwng. Bu gostyngiad o 6% ym mhreimiymau yn 2013, gyda gostyngiad o 6.5% arall yn 2014.<sup>13</sup>
57. Mae paragraff 35 yn nodi barn y llywodraeth ynghylch y lefel briodol o iawndal am PSLA ar gyfer mân hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd pe penderfynid bwrw ymlaen â'r opsiwn hwnnw. Ystyriwyd hefyd beth fyddai'n iawndal priodol ar gyfer anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd a'r anaf hwnnw'n para'n hwy na chwe mis. Mae angen cael dull i ddatblygu'r cynyddrannau angenrheidiol a hynny'n gysylltiedig â difrifoldeb cynyddol yr anafiadau a gafwyd. Barn y llywodraeth yw mai'r ffordd orau o wneud hyn yw fesul cynyddrannau trimisol ar gyfer anaf sy'n para'n hwy na chwe mis a llai na 18 mis,<sup>14</sup> a chynyddran chwe misol arall ar gyfer anafiadau sy'n para hyd at ddwy flynedd. Mae hyn yn golygu bod modd dringo drwy'r raddfa fesul cam cyfartal, a dibynnu ar ddirifoldeb yr anaf.
58. Mae'r tablau a'r siartiau canlynol yn darparu rhagor o fanylion am y tariff newydd ar gyfer hawliadau mwy sylweddol am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd. Mae'r llinell gyntaf sy'n dangos am faint mae'r anaf yn para, sef hyd at a chan gynnwys chwe mis, yn berthnasol i'r polisi yn Rhan 2 o'r ddogfen ymgynghori hon, sef dileu'r iawndal am PSLA ar gyfer anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd sy'n para

---

<sup>13</sup> Tudalen 88, Adroddiad ar Farchnadoedd Yswiriant Modur Ewrop - Tachwedd 2015 (<http://www.insuranceeurope.eu/sites/default/files/attachments/European%20motor%20insurance%20markets.pdf>)

<sup>14</sup> E.e. 7-9 mis yn nhabl 1, sy'n cyfeirio at anaf sy'n para mwy na 6 mis ond llai na 9 mis.


## Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal ('atchwip')

Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr

hyd at a chan gynnwys chwe mis. O ran y cyd-destun, mae'r tablau'n rhoi gwybodaeth am ganolrif yr iawndal a delir ar hyn o bryd ar gyfer hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd yn unig, ac maent hefyd yn rhoi gwybodaeth am hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd sy'n cynnwys niwed seicolegol fel elfen eilradd o'r hawliad.


**Tabl/Siart 1 – Hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd heb anaf seicolegol:**

Am faint mae'r Anaf yn Para	Canolrif presennol yr iawndal wedi'i bwysoli ar gyfer PSLA, heb anaf seicolegol (yn seiliedig ar ddata'r diwydiant)	Symiau canllawiau'r coleg barnwrol (12fed Argraffiad)	Symiau'r Tariff Newydd
0–6 mis	£1,750	£200 i £3,520	£400
7–9 mis	£2,400	£1,705 i £3,520	£700
10–12 mis	£2,950	£1,705 i £3,520	£1,100
13–15 mis	£3,300	£1,705 i £6,380	£1,700
16–18 mis	£3,750	£1,705 i £6,380	£2,500
19–24 mis	£4,350	£1,705 i £6,380	£3,500



**Tabl/Siart 2 -- Hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd gydag anaf seicolegol:**

Anaf Am faint mae'n para	Y taliad cyfartalog presennol ar gyfer PSLA, gydag anaf seicolegol (ar sail data'r diwydiant)	Symiau canllawiau'r coleg barnwrol (12fed Argraffiad)	Symiau'r Tariff Newydd		
			Swm y tariff newydd	Iawndaliadau a ddyfarnwyd ar gyfer seic	Tariff gyda seic
0–6 mis	<b>£1,950</b>	£200 i £3,520	£400	£25	£425
7–9 mis	<b>£2,550</b>	£1,705 i £3,520	£700	£40	£740
10–12 mis	<b>£3,050</b>	£1,705 i £3,520	£1,100	£50	£1,150
13–15 mis	<b>£3,400</b>	£1,705 i £6,380	£1,700	£60	£1,760
16–18 mis	<b>£3,850</b>	£1,705 i £6,380	£2,500	£75	£2,575
19–24 mis	<b>£4,400</b>	£1,705 i £6,380	£3,500	£100	£3,600



59. Ystyriwyd a ddylai'r tariff nodi ffigurau penodol neu a ddylai gynnwys elfen o hyblygrwydd drwy ddefnyddio amrediad neu ystod o ffigurau (fel yn achos canllawiau'r Coleg Barnwrol). Mae'r llywodraeth o'r farn y byddai rhoi un ffigur yn hytrach nag ystod eang yn rhoi mwy o eglurder i hawlwr a gwarchodaeth yn erbyn tansetlo neu gorsetlo, yn ogystal â lleihau'r sgôp am anghydfod ynghylch cwantwm.
60. Mae'r symiau sydd ar gael i hawlwr o dan y tariff hwn wedi'u cyfrifo i adlewyrchu nod polisi'r llywodraeth sef gostwng y costau cyffredinol sy'n gysylltiedig ag ymdrin â hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd. Maent hefyd yn ystyried y syniad y dylai hawlwr gydag anafiadau mwy sylweddol gael iawndal sy'n gymesur â'r boen a'r dioddefaint a brofwyd ganddynt.
61. Mae swm yr iawndal sydd ar gael o dan y drefn newydd yn dringo drwy gromlin ar hyd cyfres o gynyddrannau penodedig sy'n galluogi'r system i symud yn gyfrannol o £400 am fân anafiadau (neu £0 os penderfynir bwrw ymlaen â'r opsiwn i ddileu PSLA o fân

hawliadau) i £3,500 (neu £3,600 os oes elfen seicolegol i'r hawliad) am anafiadau mwy difrifol.

62. Mae canolrif wedi'i bwysoli'r iawndaliadau a delir ar gyfer PSLA ar hyn o bryd (ail golofn y tablau uchod) wedi'i seilio ar yr iawndaliadau sydd wedi'u talu mewn gwirionedd, ac mae'r ffigurau'n deillio o'r data a gafwyd gan y Cynghorydd Canlyniadau Hawliadau<sup>15</sup> (COA) a Colossus<sup>16</sup> (CSC). Mae'r cwmnïau hyn wedi datblygu systemau i yswirwyr werthuso'r hyn y dylai'r setliad fod drwy ddefnyddio nifer o ffactorau, gan gynnwys setliadau blaenorol a'r farchnad ehangach i sicrhau cyn lleied o amrywiadau ag sy'n bosibl yn y taliadau a wneir.<sup>17</sup>
63. Mae'r gwahaniaeth yng nghanolrif yr iawndaliadau am PSLA ar gyfer hawliadau gydag anafiadau seicolegol a heb anafiadau o'r fath yn amrywio o wahaniaeth o £200 i £0, ac ystyried yr hyn y mae hawlwr yn ei gael ar hyn o bryd ar gyfer anafiadau sy'n para am wahanol gyfnodau. Mae'r tariff a gynigir hefyd yn golygu y bydd modd dyfarnu swm cynyddol o iawndaliadau ar gyfer PSLA am anafiadau seicolegol wrth i gyfnod yr anaf ymestyn, a'r rheini'n amrywio o £25 ar gyfer mân anafiadau (neu £0 os penderfynir bwrw ymlaen â'r opsiwn i ddileu PSLA o fân hawliadau) i £100 ar gyfer anafiadau mwy difrifol.
64. Mae'r llywodraeth yn ystyried a ddylid hefyd cynnig darpariaeth ar gyfer eithriadau yn y cynnig hwn. Byddai darpariaeth o'r fath yn golygu y gallai'r farnwriaeth, ar gais, gynyddu'r swm sy'n daladwy i hawlydd hyd at 20% mewn achosion eithriadol, yng nghyswllt yr hawliadau hynny lle bydd yr anaf yn para'n hwy na chwe mis. Mae hyn yn gyson ag awdurdodaethau eraill yr Undeb Ewropeaidd, fel yr Eidal. Hoffem felly glywed barn rhanddeiliaid ar sut gellid cyflwyno darpariaeth o'r fath. Lle y rhoddir y ddarpariaeth ar waith, a ddylid amodau penodol gael eu cynnwys mewn deddfwriaeth, neu a ddylai'r farnwriaeth gael y rhyddid i'w gweithredu dan amodau priodol?
65. Barn y llywodraeth yw bod lleihau neu ddileu'r iawndal am PSLA ar gyfer mân anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd, a chyflwyno tariff iawndaliadau penodedig ar gyfer hawliadau mwy difrifol, yn cynnig dull cymesur o wneud iawn am PSLA yng nghyswllt anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd a bod buddiannau defnyddwyr sy'n talu yswiriant modur yn cael ystyriaeth deg a chytbwys.

**Cwestiwn 11: Mae'r ffigurau tariff wedi'u datblygu i gyflawni amcanion y llywodraeth. Ydych chi'n cytuno â'r ffigurau a roddwyd?**

**Esboniwch eich rhesymau dros ddweud hyn gan gynnig unrhyw awgrymiadau am ffigurau a dweud sut y cawsoch chi'r ffigurau hynny.**

**Cwestiwn 12: A ddylid cynnwys yr amgylchiadau lle gellir dewis cynyddu'r taliadau yn y ddeddfwriaeth neu a ddylai'r Farnwriaeth allu dewis cynyddu'r taliadau iawndal penodedig hyd at 20% o dan amgylchiadau eithriadol?**

<sup>15</sup> Mae data COA yn cipio rhywfaint o ddata am hawliadau 20 o wahanol yswirwyr, gydag o leiaf 5 o'r rheini ymhlith yr 20 prif yswiriwr ar sail premiymau domestig ysgrifenedig gros yn 2014.

<sup>16</sup> Mae data CSC yn cipio rhywfaint o ddata am hawliadau 5 o wahanol yswirwyr, gydag o leiaf 3 o'r rheini ymhlith yr 20 prif yswiriwr ar sail premiymau domestig ysgrifenedig gros yn 2014.

<sup>17</sup> Nid oes goryffwrdd rhwng yr yswirwyr sy'n defnyddio COA a'r rhai sy'n defnyddio CSC felly mae'r setiau data wedi'u cyfuno drwy ddefnyddio cyfartaleddau wedi'u pwysoli.

**Esboniwch eich rhesymau gan nodi pa amgylchiadau y byddech chi'n eu hystyried yn rhai eithriadol.**

## **Rhan 4 – Codi terfyn y trac hawliadau bychain ar gyfer hawliadau am anafiadau personol**

66. Trydydd mesur y rhaglen ddiwygio, a'r ail o'r ddau fesur a gyhoeddwyd gan y Canghellor ar y pryd yn Natganiad yr Hydref 2015, yw codi terfyn y trac hawliadau bychain gyda golwg ar hawliadau am anafiadau personol i £5,000 fan leiaf, drwy gyfeiriad at werth elfen PSLA yr hawliad. Nod y mesur hwn yw lleihau costau cyfreitha ar gyfer hawliadau isel eu gwerth am anafiadau personol.
67. Terfyn y trac hawliadau bychain yw £1,000 ar gyfer hawliadau am anafiadau personol ac am ddiffyg atgyweirio tai. Nid yw wedi codi ers 1991, ac mae'r lefel yn anghymesur â'r terfyn sydd ar waith ar gyfer pob hawliad bychan arall, sef £10,000. Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar Anafiadau Personol ac nid yw'r terfyn ar gyfer hawliadau am ddiffyg atgyweirio tai o fewn cwmpas y diwygiadau hyn.

### **Terfyn y trac hawliadau bychain – cefndir**

68. Mae'r holl hawliadau sifil sy'n cael eu hamddiffyn yn cael eu dyrannu i un o dri thrac: yr amldrac, y trac cyflym neu'r trac hawliadau bychain. Ystyrir nifer o ffactorau pan gaiff hawliad ei ddyrannu i un o'r tri thrac hyn. Mae'r rhain yn cynnwys gwerth ariannol yr hawliad, ei natur a'i gymhlethdod. Mae'r terfyn ar gyfer hawliadau bychain am anafiadau personol yn berthnasol i elfen PSLA yr hawliad yn unig. Bydd unrhyw iawndal a hawliad am faterion eraill megis colli enillion, adsefydlu neu driniaeth yn cael eu hystyried ar ben unrhyw PSLA a hawliad.
69. Mae'r trac cyflym yn ymdrin â hawliadau sy'n uwch na'r terfyn hawliadau bychain (yng nghyswllt hawliadau am anafiadau nad ydynt yn anafiadau personol) o £10,000 hyd at werth £25,000 ac fe ddefnyddir yr amldrac ar gyfer achosion lle bydd yr hawliad yn werth mwy na £25,000. Nod y trac hawliadau bychain yw cynnig lleoliad anffurfiol i ddatrys anghydfodau mewn ffordd syml, ddiraffferth a hwylus. Bydd y gwrandawliadau'n aml yn cael eu cynnal gyda'r partïon yn eistedd o amgylch bwrdd yn hytrach nag mewn ystafell llys ffurfiol. Yn gyffredinol, nid oes modd i gostau cyfreithiol yr hawliadau hyn gael eu hadennill gan y parti sy'n colli, er mae modd adennill rhai alldaliadau o hyd.
70. Cyflwynwyd y weithdrefn ar gyfer y trac hawliadau bychain gyntaf yn 1973 ar sail pŵer statudol barnwr i gyfeirio achos at y drefn gymrodeddu. Y terfyn gwreiddiol ar gyfer gwerth yr achosion hyn oedd £75. Erbyn 1991, roedd y terfyn wedi'i gynyddu i £1,000 ar gyfer pob hawliad. Yn 1995, ar ôl adroddiad interim yr Arglwydd Woolf, cynyddwyd y terfyn ar gyfer hawliadau bychain i £3,000 yng nghyswllt achosion ac eithrio hawliadau am anafiadau personol a diffyg atgyweirio tai.
71. Yn 1999, archwiliwyd terfynau'r hawliadau bychain eto, gan gredu bod codi'r terfyn i £3,000 ar gyfer pob hawliad ac eithrio hawliadau am anafiadau personol a diffyg atgyweirio tai wedi bod yn llwyddiannus ar y cyfan. Penderfynodd y llywodraeth ar y pryd gynyddu'r terfyn i £5,000 ar gyfer pob hawliad ac eithrio rhai am anafiadau personol ac am ddiffyg atgyweirio tai. Dadleuai cyfreithwyr anafiadau personol ar y pryd y gallai'r math hwn o hawliad fod yn gymhleth ac y gallai rhai hawlwyd ei chael hi'n anodd asesu gwerth eu hawliadau. Teimlai'r Arglwydd Ganghellor ar y pryd fod hawliadau am anafiadau personol â gwerth is na £1,000 yn cael eu trin yn deg ond



penderfynodd na ddylid codi'r terfyn eto ar gyfer y math hwn o hawliad. Codwyd dadleuon tebyg ynghylch achosion diffyg atgyweirio tai.

72. Archwiliwyd y weithdrefn hawliadau bychain gan y Tasglu Rheoliadau Gwell ac fe gyhoeddwyd adroddiad, *Better Routes to Redress*, yn 2004. Credent fod hawlwr a oedd yn eu cynrychioli eu hunain yn fwy na galluog i ddwyn hawliad yn erbyn diffynnydd a oedd yn cael ei gynrychioli gan gyfreithiwr a bod dadl o blaid codi'r terfyn ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yn y trac hawliadau bychain. Dywedai'r adroddiad fod dau bwynt cadarnhaol a phwysig wedi codi yn sgil yr ymchwil i'r posibilrwydd o gynyddu'r terfyn o £3,000 i £5,000 ar gyfer hawliadau am anafiadau nad oeddent yn anafiadau personol. Y cyntaf oedd na fyddai cynyddu'r terfyn yn arwain at y cynnydd dramatig yr oedd rhai wedi ofni'i weld yn nifer yr achosion cyfreitha yn y trac hawliadau bychain. Yr ail oedd bod y sawl a fu'n eu cynrychioli eu hunain a'r farnwriaeth ill dau wedi dweud eu bod yn cymeradwyo'r broses hawliadau bychain.
73. Yn 2005, edrychodd y Pwyllgor Dethol Materion Cyfansoddiadol ar y terfyn ar gyfer hawliadau bychain. Cyhoeddwyd ei adroddiad "*The courts: small claims*" ym mis Rhagfyr 2005 gan ganolbwyntio ar a oedd angen cynrychiolaeth gyfreithiol ar hawlwr mewn hawliadau am anafiadau personol. Canfuwyd, ar ben uchaf y raddfa, fod y rhan fwyaf o'r hawlwr yn gallu eu cynrychioli eu hunain mewn achosion. Canfu'r Pwyllgor Dethol hefyd fod llawer o fathau o hawliadau am anafiadau personol a oedd o dan y terfyn ar gyfer hawliadau bychain yn wreiddiol yn croesi'r terfyn erbyn hyn oherwydd bod lefelau iawndaliadau'n cynyddu a'r terfyn ar gyfer hawliadau bychain wedi aros yn gyson dros yr un cyfnod.
74. Ystyriodd y llywodraeth a ddylid codi'r terfyn ar gyfer hawliadau bychain gyda golwg ar hawliadau am anafiadau personol eto yn 2007, ond ar ôl ymgynghori, penderfynwyd symleiddio'r broses anafiadau personol yn hytrach na chodi'r terfyn. Y tro diweddaraf y codwyd y terfyn ar gyfer hawliadau bychain oedd yn 2012, pan godwyd y terfyn ar gyfer pob hawliad ac eithrio hawliadau am anafiadau personol a diffyg atgyweirio tai i £10,000.
75. Lansiyd ymgynghoriad arall ynghylch y terfyn ar gyfer hawliadau bychain ym mis Rhagfyr 2013. Ar ôl dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghori a'r adroddiad gan y Pwyllgor Trafnidiaeth i'r effaith a gâi hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd ar gost yswiriant modur, penderfynodd y llywodraeth, er bod rhesymau da dros godi'r terfyn, y byddai'n gohirio unrhyw gynnydd ac, yn hytrach, yn canolbwyntio ar roi diwygiadau ar waith i gryfhau annibyniaeth ac ansawdd tystiolaeth feddygol mewn hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd. Mae'r diwygiadau hyn bellach wedi'u rhoi ar waith drwy gyflwyno Porth TG MedCo a'i gynllun i achredu arbenigwyr meddygol.

### **Achosion y trac hawliadau bychain ar hyn o bryd**

76. Mae llawer o achosion eisoes yn cael eu trafod drwy'r trac hawliadau bychain, a hynny'n bennaf gan bobl sy'n cynrychioli eu hunain, ac mae hynny wedi bod yn wir am lawer blwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys hawliadau am iawndal hyd at £10,000 ar gyfer gwasanaethau diffygiol neu ar gyfer peidio â thalu anfonebau.
77. Mae costau hawlwr ar y trac hawliadau bychain yn is na chostau hawlwr ar draciau mathau eraill o lysoedd. Fel rheol, ni fydd gofyn iddynt benodi cyfreithiwr i weithredu ar eu rhan ac felly nid oes angen iddynt dalu dim ffioedd i gyfreithwyr ar ben ffioedd y llys.

78. Bydd yn rhaid i hawlwr sy'n defnyddio'r trac hawliadau bychain dalu ffioedd i'r llys ond nid yw'r rhain yn feichus ac fe ellir eu had-dalu'n rhannol neu'n llawn os bydd yr hawlwr ar incwm isel, yn cael budd-daliadau neu os nad oes ganddo gynilion.<sup>18</sup> Mae rhagor o ostyngiadau ar gael hefyd am gychwyn hawliad ar-lein. Os na fydd yr hawliad wedi'i setlo cyn y gwrandawriad – ac mae llawer o hawliadau yn cael eu setlo cyn hyn – bydd ffi gwrandawriad yn daladwy, ond mae'n bosibl cael ad-daliad ar hwn hefyd. Serch hynny, os bydd yr hawliad yn cael ei setlo cyn dyddiad y gwrandawriad a hynny o blaid yr hawlwr, neu os bydd yr hawlwr yn ennill yr hawliad, yna gellir adennill rhan o ffi'r gwrandawriad neu'r ffi i gyd. Os bydd yr hawliad yn mynd yn ei flaen i wrandawriad a bod yr hawlwr yn ei gynrychioli ei hun, bydd y barnwr yn sicrhau bod yr hawlwr yn llwyr ddeall gweithdrefn y gwrandawriad.

### **Yr achos o blaid newid**

79. Barn y llywodraeth yw nad yw hawliadau isel eu gwerth am anafiadau personol yn sgil damwain ffordd mor gymhleth nes bod angen i hawlwr gael cynrychiolaeth gyfreithiol fel mater o drefn. Felly, credwn ei bod yn briodol i'r hawliadau hyn, gan gynnwys hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain car, gael eu trafod drwy'r trac hawliadau bychain yn hytrach na thrwy'r trac cyflym, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd yn achos y mwyafrif o hawliadau o'r fath. Ers i'r terfyn ar gyfer hawliadau bychain gael ei bennu yn 1991, mae swm yr iawndal sy'n daladwy ar gyfer yr hawliadau hyn wedi cynyddu. Dylid nodi hefyd, fel yr esbonnir uchod, mai gwerth yr hawliad yw un o nifer o ffactorau'n unig i'w hystyried wrth ddyrannu achos i'r trac llys priodol; os bydd hawliad yn fwy cymhleth, bydd gan y llys yr hawl i ddewis ei symud i drac arall, megis y trac cyflym.
80. Dylid nodi hefyd bod hawliadau o'r fath mewn llawer o awdurdodaethau eraill yn Ewrop yn cael eu trin heb ddefnyddio cyfreithwyr. Er enghraifft, yn y Ffindir, dim ond os bydd y llys yn gorchymyn hynny'n benodol y bydd cyfreithwyr yn ymwneud â hawliadau isel eu gwerth am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd. Yn Ffrainc, mae dau lys hawliadau bychain lle y ceir dwyn hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd. Ceir y Juges de Proximité ar gyfer hawliadau o dan 4,000€ (£3,570<sup>19</sup>) a'r Tribunaux d'instance sydd ar gyfer hawliadau o dan €10,000 (£8,925). Nid oes gofyn cael cynrychiolaeth gyfreithiol ar gyfer y naill na'r llall.
81. Yn Norwy, bydd y rhan fwyaf o'r hawliadau am fân anafiadau personol yn cael eu trin heb gymorth cyfreithiwr. Serch hynny, os bydd yn well gan hawlwr gael cyfreithiwr i'w gynrychioli, caiff ddewis cyfarwyddo un. Mewn achosion o'r fath, bydd eu hyswiriant gan amlaf yn cynnwys yr hyn sy'n cael ei ystyried yn dreuliau rhesymol. Nid oes marchnad yn Norwy ar gyfer cytundebau amodol ynghylch ffioedd felly nid oes dim cyfreithwyr 'dim ennill dim ffi' yn gweithredu yno.
82. Ni fydd codi'r terfyn ar gyfer hawliadau bychain i gynnwys hawliadau PSLA gwerth £5,000 neu fwy yn atal hawlwr rhag cyflogi cynrychiolydd cyfreithiol, ond mi fyddai'n golygu y byddent yn y dyfodol yn gyfrifol am dalu eu costau cyfreithiol eu hunain petaent yn dewis gwneud hynny. Barn y llywodraeth yw bod mwy a mwy o wybodaeth ar gael i hawlwr er mwyn iddynt fwrw ymlaen i hawlio heb orfod ceisio cynrychiolaeth gyfreithiol.

---

<sup>18</sup> <https://www.gov.uk/get-help-with-court-fees>

<sup>19</sup> Y gyfradd gyfnewid yn gywir ar 8 Tachwedd 2016

83. Er enghraifft, mae'r Cyngor Cyfiawnder Sifil a Chyngor y Bar ill dau wedi cyhoeddi arweiniad i bobl sy'n eu cynrychioli eu hunain ac ynghylch cyflwyno hawliadau bychain. Mae'r rhain ar gael yma:
- <https://www.judiciary.gov.uk/wp-content/uploads/JCO/Documents/CJC/Publications/Other+papers/Small+Claims+Guide+for+web+FINAL.pdf>
  - [http://www.barcouncil.org.uk/media/203109/srl\\_guide\\_final\\_for\\_online\\_use.pdf](http://www.barcouncil.org.uk/media/203109/srl_guide_final_for_online_use.pdf)
84. Fel yr esboniwyd eisoes, nid yw'r terfyn ar gyfer hawliadau am anafiadau personol wedi'i godi ers 1991 ac yn ystod y cyfnod hwnnw, mae lefel yr iawndal a delir am anafiadau personol wedi cynyddu. Oherwydd hyn, mae llai o achosion yn dod o dan y terfyn hawliadau bychain nag a oedd yn flaenorol.
85. Effaith codi'r terfyn ar gyfer yr hawliadau bychain hyn yw na fyddai modd adennill y costau cyfreithiol bellach. Byddai hyn yn gostwng costau'r hawliadau hyn ac yn cyflawni amcanion y llywodraeth, sef cymell pobl i beidio â gwneud mân hawliadau, hawliadau sydd wedi'u gorliwio neu rai twyllodrus. Mae'r llywodraeth yn credu y bydd codi'r terfyn ar gyfer hawliadau bychain yn gam synhwyrol, pragmatig a chymesur fel rhan o becyn diwygio ehangach er mwyn mynd i'r afael â nifer uchel yr hawliadau hyn a'u cost.
86. Ni fydd codi'r terfyn hawliadau bychain ar gyfer anafiadau personol yn golygu bod angen cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol ac fe ellir cyflawni hyn drwy newidiadau i Reolau'r Weithdrefn Sifil. Bydd gofyn cael newidiadau ategol hefyd er mwyn i'r hawlydd allu adennill cost benodedig adroddiad meddygol sydd wedi'i achredu gan MedCo ac er mwyn sicrhau bod adroddiad meddygol o'r fath yn cael ei ddarparu'n dystiolaeth ar gyfer pob hawliad.

### **Cwmpas y cynnydd**

87. Yn sgil y cyhoeddiad a wnaed yn Natganiad yr Hydref 2015, mae'r llywodraeth wedi ystyried lefel y terfyn hawliadau bychain, ac yn arbennig a ddylid ei gynyddu i £5,000 neu uwch. At hyn, rydym wedi ystyried a ddylid codi'r terfyn ar gyfer pob hawliad am anafiadau personol yn ogystal â hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd. Trafodwyd hyn hefyd â grwpiau o randdeiliaid allweddol, yn cynnwys cynrychiolwyr o Gymdeithas y Cyfreithwyr Damweiniau Modur, Fforwm y Cyfreithwyr Yswiriant, Cymdeithas y Cyfreithwyr, Cymdeithas y Cyfreithwyr Anafiadau Personol, Cymdeithas Yswirwyr Prydain a Chymdeithas y Bar ar gyfer Anafiadau Personol.
88. Mae'r llywodraeth yn ystyried dau opsiwn o ran codi'r terfyn ar gyfer hawliadau bychain, a'r opsiwn y mae'n ei ffafrio yw codi'r terfyn ar gyfer pob hawliad am anafiadau personol.

### **Opsiwn 1 - codi'r terfyn ar gyfer pob hawliad am anafiadau personol**

89. Byddai codi'r terfyn ar gyfer pob hawliad am anafiadau personol yn dod ag ystod ehangach o achosion o fewn y cwmpas, gan gynnwys hawliadau atebolrwydd cyflogwyr ac atebolrwydd cyhoeddus<sup>20</sup> yn ogystal â hawliadau am esgeulustod clinigol lefel isel. Dyma'r opsiwn y mae'r llywodraeth yn ei ffafrio gan y byddai'n golygu bod y

---

<sup>20</sup> Mae hawliadau atebolrwydd cyhoeddus yn cynnwys "lithro a baglu". Mae hawliadau atebolrwydd cyflogwyr yn cwmpasu damweiniau ac afiechydon yn y gweithle.

## **Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal ('atchwip')**

Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr

terfyn ar gyfer gwahanol fathau o hawliadau mor isel â phosibl gan barhau â'r sefyllfa bresennol lle bydd hawliadau am anafiadau personol yn cael eu trin mewn ffordd unffurf, er ar lefel uwch. Bydd hawliadau am anafiadau personol fel rheol yn cael eu hystyried yn fath o hawliad ar wahân ac yn arbenigedd yn y gyfraith.

90. Byddai codi'r terfyn ar gyfer hawliadau bychain ym mhob hawliad am anafiadau personol yn gyson â nodau'r llywodraeth, sef cymell pobl i beidio â gwneud mân hawliadau, hawliadau wedi'u gorliwio a hawliadau twyllodrus, gan ddileu costau diangen o'r broses hawlio. Bydd rhai awdurdodau lleol a chyrrff masnachol mawr weithiau'n cael nifer uchel o hawliadau sy'n gysylltiedig â llithro a baglu. Nid yw'r problemau ar gyfer yr hawliadau hyn ar yr un raddfa â'r broblem sy'n gysylltiedig ag anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd, a hynny'n bennaf oherwydd bod tystiolaeth fwy gwrthrychol ar gael mewn nifer uchel o'r hawliadau hyn. Serch hynny, dyma faes arall lle y byddwn o bosibl yn gweld hawliadau'n cael eu symud i gategori arall ar ôl rhoi'r rhaglen ddiwygio newydd ar waith. At hynny, oherwydd rhesymau masnachol, bydd cyrrff sy'n ddiffynyddion weithiau'n cynnig setlo yn hytrach na herio hawliadau yn y categori hawlio hwn yn briodol.
91. Mae nifer o hawliadau atebolrwydd cyflogwyr ac atebolrwydd cyhoeddus, yn ogystal â hawliadau am esgeulustod clinigol, yn fwy cymhleth na hawliadau isel eu gwerth am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd, er enghraifft oherwydd bod achos yr anaf a'r atebolrwydd o bosibl yn destun amheuaeth. At hynny, gall hawliadau am fwy nag un mân anaf fod yn gymhleth ac yn anaddas ar gyfer y weithdrefn hawliadau bychain. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, dim ond un o nifer o ffactorau i'w hystyried yw gwerth yr hawliad wrth ddyrannu achos i'r trac llys priodol ac, os bydd hawliad yn arbennig o gymhleth, bydd gan y llys yr hawl i ddewis ei symud i drac arall. Rydym yn ceisio rhagor o ddata gan ymatebwyr ynghylch y mater hwn, ac mae rhagor o gwestiynau amdano yn Rhan 10 o'r ymgynghoriad hwn.

### **Opsiw'n 2 - codi'r terfyn ar gyfer hawliadau bychain am anafiadau personol yn sgil damwain ffordd yn unig**

92. Dull arall fyddai codi'r terfyn ar gyfer hawliadau bychain am anafiadau personol yn sgil damweiniau ffordd yn unig. Mae'r llywodraeth wedi dweud ei bod yn poeni bod problem benodol gyda mân hawliadau, hawliadau wedi'u gorliwio a rhai twyllodrus am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd, a byddai codi terfyn y trac hawliadau bychain ar gyfer hawliadau sy'n gysylltiedig â damwain ffordd yn sicrhau bod y mesur hwn yn gyson â'r agenda ddiwygio gyffredinol.
93. Fodd bynnag, gallai codi'r terfyn ar gyfer math arbennig o hawliad am anafiadau personol greu rhagor o ansicrwydd oherwydd y byddai hyn yn creu llu o drothwyon a systemau gweithdrefnol ar gyfer ymdrin â hawliadau am anafiadau personol, a llawer o'r rheini'n debyg o ran eu natur, ni waeth beth oedd achos gwreiddiol y ddamwain (h.y. torri coes yw torri coes, ni waeth a yw'r toriad wedi digwydd wrth faglu neu yn sgil rhyw fân ddamwain ffordd). Felly nid yw'r llywodraeth yn bwriadu mynd ar drywydd y dull hwn.

**Cwestiwn 13: A ddylid codi terfyn y trac hawliadau bychain ar gyfer pob anaf personol neu a ddylai fod yn gyfyngedig i ddamweiniau ffordd yn unig?**

**Esboniwch eich rhesymau.**

### **Lefel terfyn y trac hawliadau bychain**

94. Fel y dywedwyd eisoes, nid yw'r terfyn ar gyfer hawliadau bychain am anafiadau personol wedi codi ers 1991. Mae'n anodd gwadu, felly, ei bod yn hen bryd gwneud hyn. At hynny, wrth gyflwyno cytundebau ffioedd amodol yn 1998, gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr hawliadau a gyflwynwyd ers i'r terfyn gael ei newid ddiwethaf. Gellir dadlau nad cymhlethdod yr hawliadau ond y ffaith bod modd adennill costau drwy'r trac cyflym sydd wedi dod yn brif ffactor yn y ffordd yr ymdrinnir â'r hawliadau hyn.
95. Mae'r llywodraeth wedi dod i'r casgliad ei bod yn bryd bwrw ati i godi'r terfyn ar gyfer hawliadau am anafiadau personol. Rhaid penderfynu pa fath o hawliad y dylid ei gwmpasu ac a ddylid ei godi i £5,000 neu uwch. Wrth drafod â grwpiau o randdeiliaid cyn cyhoeddi'r ddogfen hon, y farn a fynegwyd gan gynrychiolwyr MASS, APIL a Chymdeithas y Cyfreithwyr oedd petai'r terfyn ar gyfer hawliadau bychain yn codi, y dylai hynny fod yn unol â chwyddiant.
96. Serch hynny, mae angen ystyried nifer o ffactorau wrth bennu'r lefel ar gyfer hawliadau am anafiadau personol. Bydd cynnydd yn y PSLA a ddyfernir i hawlwr hefyd yn dod o dan ddylanwad ffactorau eraill, gan gynnwys pethau megis yr ychwanegiad o 10% at hawliadau ar ôl rhoi LASPO ar waith. Yn ogystal â hynny, mae llai o hawliadau ar hyn o bryd yn dod o dan y trac hawliadau bychain na phan gyflwynwyd y terfyn yn 1991. Byddai cynyddu terfyn y trac hawliadau bychain yn unol â chwyddiant yn golygu bod mwy o hawliadau'n dod o fewn ei gwmpas, ond nid y cyfan. Hefyd, rhaid ystyried a fyddem yn gweld gwerth hawliadau'n cynyddu er mwyn sicrhau bod cynifer ohonynt â phosibl yn cael eu cadw yn y trac cyflym.
97. Mae lefel y terfyn ar gyfer hawliadau bychain am anafiadau personol yn berthnasol i elfen PSLA yr hawliad yn unig ac nid i gyfanswm gwerth yr hawliad. Yn gyson â hyn, dim ond i elfen PSLA yr hawliad y bwriedir i'r cynnydd fod yn gymwys. Wrth ystyried lefel y cynnydd, ac er mwyn gallu ymateb i amgylchiadau yn y dyfodol, mae'r llywodraeth wedi ystyried a ddylid codi'r terfyn ymhellach, er enghraifft i £7,500 neu hyd yn oed i £10,000, o ystyried mai'r terfyn ar gyfer pob hawliad arall yw £10,000. Fodd bynnag, mae'r llywodraeth wedi penderfynu bod cynnydd i £5,000 yn ymateb cymesur i'r materion a nodwyd ar y cam hwn, ac mae'r asesiad o'r effeithiau sy'n cydfynd â'r ymgynghoriad yn defnyddio'r ffigur hwn. Fodd bynnag, byddem yn croesawu safbwyntiau rhanddeiliaid ar b'un a ddylid codi'r terfyn hawliadau bychain y tu hwnt i £5,000 ac os felly, i ba lefel.

**Cwestiwn 14: Nid yw'r terfyn ar gyfer trac yr hawliadau bychain am anafiadau personol wedi codi ers 25 mlynedd. Felly bydd y terfyn yn cael ei godi i gynnwys hawliadau sy'n cynnwys elfen o boen, dioddef a cholli amwynder gwerth hyd at £5,000. Fodd bynnag, byddem yn croesawu safbwyntiau rhanddeiliaid ar b'un a ddylid codi'r terfyn hawliadau bychain am anafiadau personol y tu hwnt i £5,000 ac os felly, pam ac i ba lefel?**

### **Pobl sy'n eu cynrychioli eu hunain**

98. Mae codi terfyn y trac hawliadau bychain am anafiadau personol yn debygol o gynyddu nifer y rhai sy'n eu cynrychioli eu hunain ac sy'n dewis hawlio drwy'r trac hwnnw. Mae'r llywodraeth o'r farn bod y rhan fwyaf o'r mân achosion anafiadau personol yn ddigon syml i'w dwyn heb fod angen cynrychiolaeth gyfreithiol. Bwriad y trac hawliadau bychain yw bod pobl yn gallu dwyn achosion heb gymorth cyfreithwyr. Yn ogystal â

## Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal ('atchwip')

Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr

- hyn, dim ond un o nifer o ffactorau i'w hystyried yw gwerth yr hawliad wrth ddyrannu achos i'r trac llys priodol ac, os bydd hawliad yn arbennig o gymhleth, bydd gan y llys yr hawl i ddewis ei symud i drac arall. Erbyn hyn mae cryn dipyn o ganllawiau ar gael i bobl sy'n cynrychioli eu hunain o amrywiaeth o ffynonellau sy'n gysylltiedig â gwneud hawliadau yn y llys hawliadau bychain ac ynghylch pobl yn eu cynrychioli eu hunain.
99. Mae gan wledydd eraill yn yr UE weithdrefnau ar waith i helpu hawlwr i ddatrys eu hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal heb iddynt orfod cael cynrychiolaeth gyfreithiol. Fel y crybwyllwyd eisoes, gwneir hyn gan amlaf drwy bennu canllawiau clir ynghylch gwerth yr hawliad ynghyd â thystiolaeth feddygol annibynnol o safon. Mae gwledydd fel y Ffindir, Sbaen, Sweden a'r Eidal wedi pennu fformiwlâu, tariffau neu dablau iawndal penodedig sy'n nodi'r swm a ddyfernir i'r hawlwr.
100. Mae cyfreithwyr anafiadau personol wedi honni bod angen i hawlwr ddefnyddio cyfreithwyr wrth hawlio am anafiadau personol oherwydd nad oes ganddynt y cymhwysedd angenrheidiol i gychwyn achos yn y llys heb gymorth. Mae'r llywodraeth yn derbyn nad yw pob hawlwr o reidrwydd yn deall y broses yn llwyr ond mae cryn dipyn o help a chymorth ar gael i bob hawlwr sy'n gweithredu drosto'i hun. Yn ogystal â'r canllawiau a grybwyllwyd ym mharagraff 76, mae taflenni a chanllawiau ar y we ar gael yn [www.gov.uk](http://www.gov.uk) sydd wedi'u cynllunio gyda phobl sy'n eu cynrychioli'u hunain mewn golwg. Mae'r rhain yn cynnig canllawiau cam wrth gam ar gyfer y trac hawliadau bychain a'r hyn sy'n ofynnol gan bob parti, ynghyd â chyngor ynghylch pa achosion sy'n gymwys ar gyfer y trac hawliadau bychain a sut mae paratoi ar gyfer gwrandawriad. Mae gan y Barnwr swyddogaeth hefyd i sicrhau bod yr achos yn deg i'r hawlwr ac i'r diffynnydd.
101. At hynny, bydd llawer o becynnau yswirio ceir a'r cartref yn cynnig yswiriant Cyn y Digwyddiad (BTE), ac os bydd damwain a bod rhywun yn cael ei anafu, rhoddir cymorth i ddeiliad y polisi drwy gyfrwng cwmnïau cyfraith panel sy'n cynnig cyngor cyfreithiol neu rhoddir help i dalu treuliau. Yn yr asesiad o'r effeithiau sy'n cyd-fynd â'r ymgynghoriad, mae'r dadansoddiad yn tybio y bydd unrhyw gynnydd mewn costau BTE yn cael ei drosglwyddo ar ffurf premiymau uwch, er y byddai'r llywodraeth yn disgwyl i ddarparwyr polisiâu o'r fath gynnig pecynnau cystadleuol i ddefnyddwyr ac yn eu hannog i wneud hynny.
102. Mae'r rhan fwyaf o'r mân hawliadau am anafiadau personol yn deillio o ddamwain ffordd, ac yn y rhan fwyaf helaeth o'r rhain, mae materion megis achos ac atebolrwydd yn cael eu cyfaddef yn fuan yn y broses - bydd hawliadau sy'n mynd yn eu blaen i wrandawriad llys yn gwneud hynny er mwyn setlo materion ynghylch cwantwm. Byddai'r llywodraeth yn dadlau nad yw'r hawliadau isel eu gwerth hyn am anafiadau personol, ar y cyfan, yn fwy cymhleth na mathau eraill o hawliadau yr ymdrinnir â hwy fel mater o drefn yn y llys hawliadau bychain, a byddai hyn yn arbennig o wir o'u hystyried ar y cyd â'r cynllun newydd ar gyfer tariffau iawndal penodedig a ddisgrifir uchod. Gall y mathau eraill hyn o hawliadau fod yn ddwbl gwerth y terfyn newydd, sef £5,000 ar gyfer hawliadau am anafiadau personol, ac maent yn tueddu i fod yn fwy andwyol eu natur gyda materion fel telerau cytundebol ac achosion honedig o dor-amod yn aml yn destun anghydfod drwy gydol y broses.

103. Mae'r llywodraeth yn ystyried y gallai cwmnïau rheoli hawliadau (CMC) a McKenzie Friends<sup>21</sup> sy'n derbyn tâl ailymuno â'r farchnad anafiadau personol mewn ymateb i'r diwygiadau hyn yn gyffredinol ac i'r cynnydd yn y terfyn ar gyfer hawliadau bychain yn benodol. Mae gan y mathau hyn o sefydliadau orbenion is na llawer o gyfreithwyr anafiadau personol ac fe allant gynnig gwasanaethau i hawlwyfwr. Yn ystod yr ymgynghoriad diwethaf ynghylch hyn, ysgrifennodd cymdeithas fasnach CMC at y llywodraeth i ddadlau y byddai hyn yn digwydd petai'r terfyn ar gyfer hawliadau bychain yn cael ei godi. Byddai'n dda gennym glywed barn ymatebwyr ynghylch a fyddai hyn o help neu beidio o ran rhoi cymorth i bobl sydd fel arall heb gynrychiolaeth gyfreithiol.

**Cwestiwn 15: Rhowch eich barn ar unrhyw welliannau y gellid eu gwneud i roi rhagor o gymorth i bobl sy'n eu cynrychioli eu hunain yn y Trac Hawliadau Bychain.**

**Cwestiwn 16: Ydych chi'n meddwl y dylid rhoi unrhyw fesurau penodol ar waith yng nghyswllt cwmnïau rheoli hawliadau a McKenzie Friends sy'n derbyn tâl sy'n gweithredu yn y sector anafiadau personol?**

**Esboniwch eich rhesymau.**

---

<sup>21</sup> Mae McKenzie Friends yn cynorthwyo pobl sy'n cynrychioli eu hunain mewn llys y gyfraith yng Nghymru a Lloegr. Nid oes angen iddynt fod yn gymwys yn gyfreithiol ac fel arfer cynghorwyr llewyg ydynt sy'n rhoi cefnogaeth foesol i ymgyfreithwyr, yn cadw cofnodion, yn helpu gyda phapur achosion ac yn rhoi cyngor ar sut y bydd achos yn mynd rhagddo. Ni all McKenzie Friends gynnal ymgyfreithiad, annerch y llys na llofnodi dogfennau'r llys. Mae eu gwasanaethau am ddim fel arfer, ond mae McKenzie Friends sy'n derbyn tâl yn dod yn fwyfwy cyffredin.

## **Rhan 5 – Cyflwyno gwaharddiad ar gynigion cyn prawf meddygol i setlo hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd**

104. Mesur olaf y rhaglen ddiwygio yw gwahardd diffnyddion rhag gwneud cynigion i setlo hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd heb gael adroddiad meddygol, arfer a elwir hefyd yn gwneud 'cynigion cyn prawf meddygol'. Mae'r mesur hwn yn adeiladu ar newidiadau i Reolau'r Weithdrefn Sifil a gyflwynwyd yn 2014 i annog pobl i beidio â defnyddio cynigion o'r fath mewn achosion anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd.
105. Dadleuwyd bod y math hwn o gynnig yn cael ei ddefnyddio i reoli costau'r broses hawlio. Y ddadl yw nad yw'n fasnachol hyfyw herio hawliadau am anafiadau personol isel eu gwerth yn y trac cyflym. Nid yw'n hysbys yn union faint o setliadau o'r fath sydd bob blwyddyn, ond mae'r dystiolaeth storiol yn awgrymu bod oddeutu 10% (mwy na 50,000 o achosion) o'r holl hawliadau am anafiadau personol yn sgil damwain ffordd yn cael eu setlo ar hyn o bryd heb gael asesiad meddygol.
106. Ceir tystiolaeth storiol hefyd fod cyfran o gyfreithwyr yr hawlwr yn gofyn am gynigion o'r fath ar ran eu cleientiaid er mwyn cwblhau'r hawliad yn gyflym a sicrhau'r elw mwyaf posibl yn ei sgil. Gall hyn arwain at dansetlo i hawlwr ac achosion cyfreithiol posibl yn y dyfodol os bydd y ddamwain yn achosi problemau iechyd tymor hir difrifol mewn gwirionedd i gleient ac nad oedd ei gyfreithiwr wedi trefnu iddo gael archwiliad ac adroddiad meddygol priodol.
107. Serch hynny, pryder penodol y llywodraeth yn y cyswllt hwn yw bod y ffaith bod yswirwyr yn defnyddio cynigion cyn prawf meddygol yn gallu annog pobl i wneud mân hawliadau, neu hyd yn oed rai twyllodrus, yn enwedig os bydd gan yswiriwr enw am setlo yn hytrach nag am ymchwilio i hawliadau. Mae hyn yn cyfrannu at y canfyddiad anffodus bod rhai hawliadau yswiriant, yn enwedig mân hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn "arian hawdd". Mae'r llywodraeth yn credu felly ei bod yn rhaid atal yr arfer hwn
108. Ystyriwyd hyn gan y Tasglu Twyll Yswiriant ac fe gyhoeddwyd ei adroddiad ar 18 Ionawr 2016<sup>22</sup>. Argymhelliad y Tasglu oedd y dylai Cymdeithas Yswirwyr Prydain annog ei haelodau i roi'r gorau i ddefnyddio cynigion o'r fath, gan ddweud y gallai'r arfer danseilio gwaith i fynd i'r afael â thwyll.
109. Mae rhai yswirwyr wedi dweud, wrth geisio esbonio pam y maent yn defnyddio cynigion cyn prawf meddygol, eu bod yn gwneud y cynigion hyn oherwydd nad yw ansawdd y dystiolaeth feddygol yn ddigon da. Dywedodd y Tasglu hefyd serch hynny "the substantial work undertaken by MoJ to reform in this area with the establishment of MedCo" ac "[this] has made the medical evidence process much more robust. In this context, the Taskforce considers there is a strong case for insurers to reduce the number of pre-medical offers".

---

<sup>22</sup> <https://www.gov.uk/government/groups/insurance-fraud-taskforce>



110. Y trydydd amgylchiad lle y defnyddir cynigion o'r fath yw pan fydd hawliadau'n cael eu gwneud tua diwedd terfyn y cyfnod statudol, sef tair blynedd. Yn yr hawliadau hyn, mae'r yswirwyr yn nodi bod yr adroddiadau meddygol yn gostau diangen. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae unrhyw anaf wedi gwella ers tro a'r cyfan y gall arbenigwr meddygol ei wneud yw cadarnhau y gallai damwain bron i dair blynedd yn ôl fod wedi arwain at anaf i'r feinwe feddal fel y disgrifiwyd gan yr hawlydd. Mae rhywfaint o sylwedd i'r ddadl hon, a dylid ystyried a ddylid peidio â rhoi'r gwaharddiad ar waith yn y categori hawlio hwn.
111. Fel arall, mae'r llywodraeth yn gadarn ei barn, ar ôl damwain ffordd lle mae rhywun wedi cael anaf - yn enwedig, anaf i'r feinwe feddal - y dylid cwblhau adroddiad meddygol gan un o arbenigwyr meddygol achrededig MedCo cyn cynnig setlo. Rhai o ddiwygiadau blaenorol y llywodraeth yn y maes hwn oedd pennu cost adroddiadau meddygol, sef £180, gan ei gwneud yn ofyniad i bob adroddiad meddygol a ddefnyddir i gefnogi hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd ddod drwy MedCo gan arbenigwr meddygol achrededig, ac annog pobl i beidio â defnyddio cynigion cyn prawf meddygol drwy newid Rheolau'r Weithdrefn Sifil.
112. Wrth gyflwyno gwaharddiad, mae'n bwysig bod yn glir ynghylch cwmpas gwaharddiad o'r fath. Mae'r llywodraeth yn cynnig mai dim ond i anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd y dylai gwaharddiad ar gynigion cyn prawf meddygol fod yn berthnasol. Rydym wedi ystyried a ddylid estyn y gwaharddiad i bob hawliad am anafiadau personol, yn rhannol er mwyn sicrhau cysondeb yn y dull a ddefnyddir, ond rydym yn amau faint o fudd ychwanegol fyddai i estyniad o'r fath.
113. Serch hynny, mae'n bosibl y dylid eithrio rhai hawliadau atebolrwydd cyflogwyr / atebolrwydd cyhoeddus lle mae'r dystiolaeth storïol yn awgrymu bod hawlwyr, ar ôl iddynt lithro neu faglu, yn gallu bod yn agored i gynigion o'r fath gan archfarchnadoedd neu awdurdodau lleol. Y rheswm dros wneud hyn eto yw'r gost: mae'n aml yn rhatach setlo hawliad nag ymchwilio iddo ac mae gan lawer o fanwerthwyr mawr gyllidebau sydd wedi'u neilltuo ar gyfer setlo hawliadau'n gyflym. Gellid dadlau yn yr un modd â'r uchod sef bod y setlo'n sbarduno hawliadau, er bod y niferoedd dan sylw'n sylweddol is.
114. Bydd y mesurau eraill a ddisgrifir yn y ddogfen ymgynghori hon yn dileu nifer o'r pethau sy'n sbarduno'r ymddygiad hwn, ond ni fydd yn cael gwared ar yr ymddygiad yn llwyr. Mae'r llywodraeth wedi ymrwmo i leihau nifer y mân hawliadau, hawliadau wedi'u gorliwio a rhai twyllodrus yn ogystal ag i warchod hawlwyr sydd wir wedi'u hanafu'n fwy difrifol rhag y posibilrwydd o dansetlo hawliadau. Dyma pam rydym yn bwriadu deddfu a chyflwyno gwaharddiad rheoleiddiol effeithiol.

**Cwestiwn 17: Ai dim ond i anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd y dylai'r gwaharddiad ar gynigion cyn prawf meddygol fod yn berthnasol?**

**Esboniwch eich rhesymau.**

**Cwestiwn 18: A ddylai fod unrhyw eithriadau i'r gwaharddiad ac os felly, beth ddylai'r rhain fod a pham?**

### **Gorfodi'r gwaharddiad**

115. Wrth gyflwyno gwaharddiad, mae'r llywodraeth wedi ystyried y ffordd orau o'i orfodi. Mae'r llywodraeth yn cynnig trafod y materion hyn yn fanylach gyda'r rheoleiddwyr

**Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal ('atchwip')**

Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr

perthnasol, ac yn benodol gydag Awdurdod Rheoleiddio'r Cyfreithwyr a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, byddai'r llywodraeth yn falch o glywed barn pobl am y ffordd orau o orfodi'r gwaharddiad ac a oes gan y rheoleiddwyr perthnasol ddigon o bwerau i'w orfodi'n effeithiol.

**Cwestiwn 19: Sut y dylid gorfodi'r gwaharddiad?**

**Esboniwch eich rhesymau.**

## Rhan 6 – Rhoi argymhellion y Tasglu Twyll Yswiriant ar waith

116. Sefydlwyd y Tasglu Twyll Yswiriant ym mis Ionawr 2015 i ymchwilio i achosion ymddygiad twyllodrus ac argymell atebion i leihau lefelau'r twyll yswiriant er mwyn lleihau costau yn y pen draw a diogelu buddiannau defnyddwyr. Roedd y Tasglu hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector yswiriant ynghyd â sefydliadau defnyddwyr allweddol. Cyhoeddodd y Tasglu ei adroddiad terfynol ar 18 Ionawr 2016 gan wneud 26 o argymhellion<sup>23</sup>, ac roedd saith o'r rhain i'r llywodraeth. Mewn datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog ar 27 Mai 2016, croesawodd y llywodraeth yr adroddiad a derbyn y saith argymhelliad a oedd yn berthnasol iddi.
117. Mae un o'r argymhellion hyn, sef gweithredu yng nghyswllt galwadau niwsans, yn cael sylw gan yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon ac mae'r argymhellion ynghylch Rheoleiddio Rheoli Hawliadau'n cael sylw gan Drysorlys EM a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder fel rhan o'u hymateb i adolygiad Brady o drefniadau rheoleiddio cwmnïau rheoli hawliadau.
118. O blith y pum argymhelliad arall, mae dau (Argymhelliad 10 ac 17) yn cael eu hystyried yn y ddogfen ymgynghori hon, yn ogystal ag argymhelliad gan Weithgor Anafiadau Personol y Tasglu Twyll Yswiriant ynghylch Symud Costau Cymwysedig Un Ffordd (QOCS) a thynnu hawliadau yn ôl yn hwyr. Roedd a wnelo argymhelliad 10 â 'hawliadau wedi'u gorliwio neu hawliadau twyllodrus hwyr', gan gynnwys cynnig ynghylch cyflwyno iawndaliadau rhagweladwy. Mae'r argymhelliad hwn'n cael sylw mewn cynigion mewn manau eraill yn yr ymgynghoriad hwn, gan gynnwys yn Rhan 3 ar iawndaliadau rhagweladwy. Rhoddir sylw i argymhelliad 17 (gorfod hysbysu ynghylch ffynonellau atgyfeirio) a'r argymhelliad ynghylch QOCS isod.
119. Argymhelliad 17 o adroddiad terfynol y Tasglu Twyll Yswiriant oedd y dylai'r llywodraeth 'ymgyngori ynghylch cyflwyno gofyniad gorfodol i gynnwys ffynonellau atgyfeirio ar y ffurflen hysbysu ynghylch hawliadau'. Dim ond os bydd y ffurflen hysbysu'n gyflawn y dylai hawliadau fynd rhagddynt a dylai yswirwyr rannu data gydag Awdurdod Rheoleiddio'r Cyfreithwyr a'r Rheolydd Rheoli Hawliadau (os byddant yn amau bod cynrychiolwyr yr hawlydd yn torri'r gwaharddiad ar ffioedd atgyfeirio).
120. Nod y cynnig hwn yw lleihau twyll drwy ddangos ffynonellau atgyfeirio hawliadau (er mwyn i ddiffnyddion wybod pan fydd hawliadau'n dod gan sefydliad yr amheuir ei fod yn ymdrin â hawliadau twyllodrus). Gellir gwneud hyn yn syml drwy ddiwygio'r ffurflen hysbysu i gynnwys maes gorfodol i'w ddefnyddio gan hawlwr neu eu cynrychiolwyr i nodi ffynhonnell yr hawliad. Bydd hyn o fudd i bob parti, gan gynnwys y rheoleiddwyr priodol.

**Cwestiwn 20: A ddylid diwygio'r Ffurflen Hysbysu ynghylch Hawliadau i gynnwys ffynhonnell atgyfeirio'r hawliad?**

**Rhowch resymau os gwelwch yn dda.**

<sup>23</sup> <https://www.gov.uk/government/groups/insurance-fraud-taskforce>

## **Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal ('atchwip')**

Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr

121. Gwnaeth Gweithgor Anafiadau Personol y Tasglu Twyll Yswiriant argymhellion ynghylch QOCS a thynnu hawliadau yn ôl yn hwyr. Roedd pob aelod o'r Grŵp hwnnw (gan gynnwys cynrychiolwyr yr hawlwr a'r diffynnyddion) yn poeni bod y trefniadau presennol yn caniatáu i bobl dynnu hawliadau twyllodrus yn ôl heb wynebu cosb, er y bydd yr hawliadau hyn o bosibl yn golygu bod y diffynnydd yn wynebu costau sylweddol na fydd modd iddo'u hadennill. Mae Rhan 38.4 o Reolau'r Weithdrefn Sifil yn nodi'r rheolau am QOCS. Mae QOCS yn berthnasol mewn achosion anafiadau personol ac yn ei hanfod, mae'n symud oddi wrth y ddarpariaeth gostau gyffredinol oherwydd nid oes yn rhaid i hawlydd sy'n colli dalu costau cyfreithiol diffynnydd llwyddiannus.
122. Yr hyn sy'n destun pryder i'r Tasglu Twyll Yswiriant yw y gellir tynnu hawliadau yn ôl yn hwyr yn y broses, cyn treial, er mwyn osgoi canfod anonestrywydd sylfaenol yn y treial. Byddai canfyddiad o'r fath yn dileu'r warchodaeth sydd gan yr hawlydd o ran costau a byddai'r hawlydd felly'n atebol am gostau'r diffynnydd. Mae'r rheolau presennol yn caniatáu i ddiffynnydd wneud cais i'r llys am roi o'r neilltu'r hysbysiad i roi'r gorau i'r achos ac argymhelliad y Tasglu yn hytrach yw y dylai fod yn rhaid i'r hawlwr geisio caniatâd y llysoedd cyn rhoi'r gorau iddi os yw'n dymuno gwneud hynny lai na 28 diwrnod cyn y treial.

**Cwestiwn 21: A ddylid diwygio'r darpariaethau ynghylch Symud Costau Un Ffordd Cymwysedig fel bod gofyn i hawlydd geisio caniatâd y llys i roi'r gorau i'r achos lai na 28 diwrnod cyn y treial (Rhan 38.4 o CPR)?**

**Rhowch eich rhesymau.**

## Rhan 7 -Galw am dystiolaeth ynghylch materion cysylltiedig

123. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn ceisio barn am fanylion nifer o ddiwygiadau sy'n effeithio ar achosion anafiadau personol, fel y'u nodir uchod. Serch hynny, mae'n gyfle hefyd inni geisio barn rhanddeiliaid ar nifer o feysydd eraill sydd o ddiddordeb i'r llywodraeth. Sef:

- i. Llogi ar Gredyd;
- ii. Hysbysu'n Fuan ynghylch Hawliadau;
- iii. Adsefydlu;
- iv. Gallu adennill alldaliadau; a
- v. Cyflwyno system o fath Barème.

124. Nid yw'r llywodraeth yn bwriadu diwygio pethau'n fuan yn y meysydd hyn, ond bydd wrth gwrs yn ystyried yn ofalus ymatebion i'r ymgynghoriad hwn gan benderfynu sut orau i frwr ymlaen. Byddai barn rhanddeiliaid a thystiolaeth ategol o ddiddordeb mawr i ni.

### **i. Llogi ar Gredyd**

125. Fel y mae'r ddogfen hon wedi'i nodi'n glir, mae a wnelo rhaglen ddiwygio newydd y llywodraeth â mwy na mynd i'r afael â thwyll -bwriedir iddi hefyd fynd i'r afael â'r costau sy'n deillio o fân hawliadau a'r diwylliant iawndaliadau ehangach. Mae llogi ar gredyd yn effeithio ar yswirwyr, ar sefydliadau llogi ar gredyd ac ar hawlwr, ac fel sy'n wir ynghylch hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd, mae'r costau sy'n gysylltiedig â llogi ar gredyd yn effeithio ar bob modurwr oherwydd eu bod yn cynyddu premiymau yswiriant. Mae'r llywodraeth felly wedi penderfynu edrych eto ar y materion sy'n gysylltiedig â llogi ar gredyd.

126. Cynhaliwyd nifer o astudiaethau ac ymchwiliadau yn y sector hwn gan y Swyddfa Masnachu Teg fel yr oedd ar y pryd, a arweiniodd maes o law at ymchwiliad llawn i'r farchnad, adroddiad ac argymhellion gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Er gwaethaf gwaith yr Awdurdod hwnnw, credwn y gellid ac y dylid gwneud rhagor, ac y byddai o fudd defnyddio'r papur ymgynghori hwn i geisio rhagor o safbwyntiau am atebion posibl i'r problemau a welir yn y sector hwn.

127. O dan Adran 145(3) (a) Deddf Traffig Ffyrdd 1988, ar ôl damwain ffordd yng ngwledydd Prydain, yswiriwr y gyrrwr sydd ar fai am y ddamwain sy'n gyfrifol am gostau adsefydlu'r gyrrwr diniwed i'r sefyllfa yr oedd ynddi cyn y ddamwain. Os bydd y ddamwain yn golygu na fydd cerbyd y gyrrwr diniwed ar gael oherwydd ei fod yn cael ei atgyweirio, bydd y gyrrwr sydd ar fai hefyd yn gyfrifol am wneud iawn i'r gyrrwr diniwed am gollir defnydd ar ei gerbyd. Felly, mae gan y gyrrwr diniwed yr hawl i adfer costau rhesymol llogi car, cyn belled â bod modd sefydlu bod angen Cerbyd Dros Dro.

128. Gan amlaf dylid rhoi cerbydau dros dro sy'n cyfateb i'w cerbyd hwy eu hunain i yrwr diniwed a hynny am gyfnod y tybir ei fod yn angenrheidiol. Bydd y trefniadau ar gyfer atgyweirio a darparu car dros dro fel rheol yn cael eu gwneud gan yswirwyr y parti diniwed ac fe all gyfeirio'r hawliad at Gwmni Rheoli Hawliadau (CMC) neu Gwmni Llogi ar Gredyd (CHC).

129. Serch hynny, canfu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, o ganlyniad i gyfraith camwedd, mai'r parti sydd ar fai sy'n atebol am y costau mewn damwain ond mai'r parti diniwed sy'n rheoli'r costau hynny. Mae hyn yn golygu bod yr atebolrwydd am gostau a'r rheolaeth drostynt wedi'u gwahanu oddi wrth ei gilydd. At hyn, nid y parti sy'n talu am y gwasanaeth yw'r parti sy'n elwa ac felly nid yw'n wynebu cyfyngiadau arferol o ran y gyllideb, a all arwain at gostau ychwanegol. Mae hyn am nad oes gan y parti sydd ar fai yr hawl i ddewis darparwr y gwasanaethau ar gyfer y gyrrwr diniwed na nodi telerau'r gwasanaethau ac felly ni all reoli'r gost.
130. Felly, mae problem wirioneddol yma, sef nad oes cymhellant i yswiriwr y gyrrwr diniwed neu gwmni llogi ar gredyd gadw'r costau'n isel oherwydd bod y costau'n cael eu talu'n bennaf gan yswiriwr y gyrrwr sydd ar fai. Mae hyn wedi arwain at chwyddo costau a chyfnodau llogi ac mae wedi cyfrannu at gynyddu premiymau yswiriant yn gyffredinol rhwng £3 a £10 y polisi. Os nad awn i'r afael â'r broblem hon yn awr, mae'n bosibl y bydd y taliadau hyn yn cynyddu, gan arwain at gynyddu premiymau yswiriant eto.
131. Byddai'n dda gan y llywodraeth glywed barn ymatebwyr i'r ymgynghoriad hwn am nifer o opsiynau i reoli costau yn y farchnad llogi ar gredyd. Sef:
- a) **Model y Parti Cyntaf** -o dan fodel y parti cyntaf, byddai cerbyd dros dro'n cael ei ddarparu gan yswiriwr deiliad y polisi ei hun, ni waeth pwy sydd ar fai am y ddamwain. Byddai gofyn felly i ddeiliad y polisi ddefnyddio'r warchodaeth honno. Byddai newid o'r fath yn golygu creu deddfwriaeth sylfaenol ac yn dileu'r gwahaniad rhwng rheolaeth dros y costau ac atebolrwydd am y costau hynny. Hefyd, nododd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd y gallai model o'r fath arwain at gynyddu costau premiymau yn y dyfodol oherwydd y byddai pobl yn defnyddio'r polisi fel mater o drefn, er y gallai cystadleuaeth rhwng yswirwyr i gadw'u prisiau'n isel liniaru'r risg hon.
  - b) **Y Model Rheoleiddio** -byddai model rheoleiddio'n golygu cyflwyno trefn ffurfiol i reoleiddio darparwyr cerbydau dros dro. Byddai'n sicrhau rheolaeth effeithiol dros yr ymddygiad sy'n achosi costau ffrithiannol (h.y. costau uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â thrafodion ariannol); yn caniatáu capio cyfraddau ar gyfer darparu cerbyd dros dro; ac yn golygu bod modd cyflwyno gwaharddiad ar ffioedd atgyfeirio mewn hawliadau ar gyfer cerbydau dros dro. Bydd llawer yn dadlau mai rheoleiddio yw'r ateb mwyaf sylfaenol sydd ei angen er mwyn helpu i fynd i'r afael â phroblem llogi ar gredyd oherwydd y byddai'n darparu lefel gywir o bŵer i reoli costau. Byddai'r model hwn yn cyflwyno elfen o wrthrychedd i'r broses ond byddai angen amser i baratoi'r ddeddfwriaeth sylfaenol a'r is-ddeddfwriaeth angenrheidiol.
  - c) **Cod Ymddygiad i'r Diwydiant** -byddai cod ymddygiad dan berchnogaeth y diwydiant yn cael ei atgyfnerthu i nodi'r gwerthoedd, y foeseg, yr amcanion a'r cyfrifoldebau ar gyfer y sector. Gallai'r 'cod' adeiladu ar y camau y mae'r diwydiant eisoes wedi'u cymryd e.e. Telerau Cytundeb Cyffredinol yr ABI. Byddai'r cod yn caniatáu i fusnesau eu rheoleiddio'u hunain a'i gilydd drwy sefydlu arweiniad sydd wedi'i ddiffinio'n glir ac y cytunwyd arno ar gyfer rhyngweithio. Gellid ei ddefnyddio ochr yn ochr â chanllawiau moesegol y diwydiant ei hun. Mae'r llywodraeth yn credu, pe dilynid dull o'r fath, y byddai'r egwyddorion craidd i'w hymgorffori yn y cod yn cynnwys elfennau sy'n seiliedig ar ymddygiad, gonestrwydd, amhleidioldeb ac adroddiadau. Gallai hyn helpu i dorri costau, er enghraifft, gallai helpu i sicrhau mai dim ond yn ystod y cyfnod y byddai angen y cerbydau dros dro arnynt y byddai gyrrwyr diniwed yn defnyddio cerbydau o'r fath,

yn hytrach na'u defnyddio am gyfnodau hwy sy'n sylweddol y tu hwnt i'w gofynion. Gallai'r model hwn ganiatáu i'r yswiriwr sydd ar fai herio costau'r yswiriwr diniwed er mwyn sicrhau bod y gost derfynol yn rhesymol a bod modd ei chyfiawnhau. Petaem yn bwrw ymlaen â hyn, byddai angen cefnogaeth y diwydiant drwyddi draw a byddai angen i'r llywodraeth barhau i fonitro bod pawb yn cadw at y cod, gyda golwg ar gymryd camau pellach petai hynny'n ofynnol.

- d) Model y Cynnig Cystadleuol** -byddai'r model hwn yn caniatáu i'r yswiriwr sydd ar fai geisio'i ddyfynbris ei hun i bob pwrpas y gellid ei ddefnyddio i herio cost llogi cerbyd dros dro gan yr yswiriwr diniwed. Byddai hyn yn help i gadw'r costau mor isel â phosibl drwy gwtogi'r cyfnod y bydd cerbyd y gyrrwr diniwed oddi ar y ffordd ac fe allai hefyd roi'r cyfle i yswiriwr y gyrrwr sydd ar fai ddarparu cerbyd dros dro addas am gost fwy cystadleuol nag a gynigir o dan y telerau llogi ar gredyd presennol. Serch hynny, efallai y byddai'r amser y byddai'n ei gymryd i'r yswirwyr sydd ar fai drefnu hyn yn broblem, yn enwedig gan fod hawliadau llogi ar gredyd yn gaeth i amser. Mae ystyriaethau hefyd ynghylch faint y byddai'n rhaid i'r hawlydd diniwed ymwneud â'r broses ac y gallai hyn arwain at straen ddiangen ac anfodlonrwydd ymhlith cwsmeriaid.

132. Maes arall y soniodd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd amdano lle y gallai fod lle i gymryd camau pellach oedd maes addysgu defnyddwyr am gost ymdrin â hawliadau llogi ar gredyd, cymharu prisiau a gwella'n gyffredinol y ffordd y bydd gwybodaeth yn cael ei chyfleu. Gallai hyn helpu i sicrhau bod hawlwr yn deall eu hawliau cyfreithiol yn well a byddai'n cynyddu lefel y tryloywder sydd ei hangen yn y maes hwn, yn enwedig gyda golwg ar gostau penodedig ar gyfer grwpiau o gerbydau a hyd cyfnodau llogi. Mae a wnelo'u hail bwynt â thryloywder y cytundebau llogi ar gredyd eu hunain, a bod llawer o ddefnyddwyr yn anymwybodol o delerau ac amodau'r cytundeb y maent wedi'i lofnodi. Gall hyn arwain at sefyllfa lle bydd gyrrwyr nad oeddent ar fai mewn damwain yn cael eu dal yn atebol yn annisgwyl am dalu bil mawr am gyfnod y llogi ar gredyd.

**Cwestiwn 22:**

**Pa fodel ar gyfer adfywio'r modd yr ymdrinnir â chytundebau llogi ar gredyd yn y dyfodol ydych chi'n ei gefnogi?**

- a) Model y Parti Cyntaf
- b) Y Model Rheoleiddio
- c) Cod Ymddygiad y Diwydiant
- d) Model y Cynnig Cystadleuol
- e) Arall

**Cofiwch ddarparu tystiolaeth ategol/rhesymau dros eich barn (gall fod yn seiliedig ar unrhyw un o'r modelau a amlinellir uchod neu fodelau eraill nas trafodir yma).**

**Cwestiwn 23: Pa awgrymiadau eraill (os oes gennych rai) ar gyfer diwygio a fyddai'n helpu'r sector llogi ar gredyd, yn benodol, i fynd i'r afael â'r math o ymddygiad a welir gan y sawl sy'n cymryd rhan yn y farchnad?**

**Nodwch y ffactorau y credwch y dylid eu hystyried a pham.**

**Cwestiwn 24. Beth fyddai'r ffordd orau o wella sut y caiff defnyddwyr eu haddysgu ynghylch llogi cerbydau priodol ar gredyd?**

**ii. Hysbysu'n fuan ynghylch anaf/bwriad o hawlio**

133. Wrth ystyried ffyrdd o fynd i'r afael â mân hawliadau a hawliadau wedi'u gorliwio am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffyrdd yng Nghymru a Lloegr, mae'r llywodraeth wedi treulio amser yn edrych ar awdurdodaethau eraill yn Ewrop. Un o'r syniadau a roddwyd ar waith mewn nifer o wledydd Scandinafaidd yw hysbysu'n fuan am hawliadau. Felly, yr ail faes y mae'r llywodraeth yn ceisio barn neu dystiolaeth yn ei gylch gan randdeiliaid yw a ddylid cyflwyno system hysbysu'n fuan.
134. Mae Sweden, Norwy a'r Ffindir i gyd yn defnyddio systemau lle mae'n rhaid i'r hawlydd geisio triniaeth feddygol a phrofi iddynt ei chael o fewn cyfnod byr (er enghraifft yn Sweden, o fewn 72 awr i'r ddamwain). Serch hynny, o'i chymharu â phoblogaeth Cymru a Lloegr, mae poblogaeth yr awdurdodaethau hyn yn denau, mae llai o gerbydau ar y ffyrdd ac felly, llai o ddamweiniau y pen. Maent hefyd yn gweithredu'n gyffredinol ar sail modelau yswiriant parti cyntaf ac mae'r llysoedd yn caniatáu i yswirwyr weld cofnodion meddygol yr hawlwr.
135. Rydym wedi ystyried a fyddai hysbysu ynghylch hawliadau'n fuan o help i leihau nifer yr hawliadau twyllodrus a mân hawliadau yng Nghymru a Lloegr. Byddai'n rhaid ystyried y broses hysbysu ond byddai hysbysu'n fuan yn cynnwys hysbysu'r yswiriwr perthnasol am yr hawliad o fewn cyfnod penodedig.
136. Gellid dadlau bod hysbysu'n fuan yn groes i amcanion diwygiadau'r llywodraeth oherwydd, ar ôl cofrestru eu hawliad, byddai hawlwr yn anochel yn cael eu hannog i fwrw ymlaen ag ef. Serch hynny, gallai'r gofyniad i hysbysu'n fuan helpu hefyd i osgoi hawliadau hwyr, sef, gellid dadlau, yr hawliadau sydd fwyaf tebygol o gael eu gorliwio a'r rhai sydd fwyaf tebygol o beri anawsterau o ran tystiolaeth.
137. Un peth sydd â chysylltiad agos â hysbysu'n fuan yw a ddylai hawlwr geisio triniaeth feddygol o fewn cyfnod penodedig ar ôl y ddamwain. Cytunir yn gyffredinol y bydd symptomau anaf i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd yn dechrau o fewn yr wythnos gyntaf ac mae rhai wedi awgrymu y dylai hawlwr orfod cysylltu mewn rhyw fodd â gweithiwr meddygol proffesiynol o fewn yr ychydig wythnosau cyntaf, er enghraifft o fewn pedair wythnos i'r ddamwain, gyda'r nod o ostwng nifer yr hawliadau twyllodrus a hawliadau wedi'u gorliwio. Yna gellid llunio tybiaeth amodol fod yr hawliad yn 'fân hawliad' os na fydd triniaeth feddygol wedi cael ei cheisio o fewn y cyfnod hwnnw. Mantais y dull hwn fyddai gwneud yn siŵr bod y mwyaf posibl o dystiolaeth feddygol gyffredol ar gael i gefnogi'r hawliad.
138. Fodd bynnag, byddai angen ystyried hyfywedd y dull hwn yn ofalus gyda rhanddeiliaid, yn arbennig cydweithwyr yn yr Adran Iechyd a'r GIG yn Lloegr, gan y gallai greu problemau sylweddol o ran logisteg a rhoi baich ychwanegol diangen ar y GIG nad oes ganddo mo'r adnoddau i ddelio ag ef ar hyn o bryd.

**Cwestiwn 25: A ydych chi'n meddwl y dylid cyflwyno system hysbysu'n fuan am hawliadau yng Nghymru a Lloegr?**

**Rhowch resymau a/neu dystiolaeth i gefnogi'ch barn.**

**Cwestiwn 26: Rhowch eich barn am yr opsiwn i'w gwneud hi'n ofynnol i hawlwr geisio triniaeth feddygol o fewn cyfnod penodol ac a ddylid tybio bod hawliad yn 'fân hawliad' os na chaiff triniaeth ei cheisio o fewn y cyfnod hwn.**

**Esboniwch eich rhesymau.**



### iii. Adsefydlu

139. Nid yw adsefydlu'n angenrheidiol nac yn briodol ym mhob achos oherwydd bydd llawer o hawlwr yn gwella heb fod angen gwasanaeth adsefydlu ychwanegol. Bydd adsefydlu (os bydd gofyn amdano) fel rheol yn cael ei drefnu gan gyfreithiwr yr hawlwr neu gan yswiriwr y diffynnydd. Rhaid i'r hawlwr gytuno i'r adsefydlu ac yswiriwr y diffynnydd fydd yn talu amdano.
140. Os bydd angen adsefydlu ar ôl anaf personol, fe all fod y gwasanaeth ar gael yng nghlinigau poen neu glinigau cefn y GIG. Serch hynny, efallai nad hwn fydd yr opsiwn mwyaf cyfleus i rai hawlwr. Y dewis arall yw'r sector preifat, sy'n gallu bod yn ddrud iawn i'r diffynnydd ond fe all gyflymu'r cyfnod gwella i'r hawlwr gan leihau cost gyffredinol yr hawliad. Mae data'r Cynghorydd Canlyniadau Hawliadau<sup>24</sup> yn awgrymu bod mwy o adsefydlu'n digwydd ers rhoi diwygiadau Jackson ar waith yn 2013, pan ostyngwyd y ffioedd penodedig a oedd ar gael i gyfreithwyr brosesu hawliadau am anafiadau personol.
141. Mae nifer wedi codi pryderon ynghylch problemau sy'n ymddangos ym maes adsefydlu, yn benodol y potensial ar gyfer twyll. Yn ystod sesiynau agored i randdeiliaid a gynhaliwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn 2015, fel rhan o'r Hadolygiad MedCo, daeth nifer o randdeiliaid at swyddogion i godi mater cysylltiadau anfoesegol, rhai tebyg i'r rheini y mae MedCo eisoes yn mynd i'r afael â hwy. Honnwyd bod sefyllfa'n datblygu lle bydd rhai cyfreithwyr yn berchen ar eu holl waith ac yn ei gyfeirio i gyd at eu darparwyr adsefydlu hwy eu hunain tebyg i'r arfer o fod yn berchen ar eu holl waith paratoi adroddiadau meddygol mewn achosion anafiadau i'r feinwe feddal a'u cyfeirio at eu sefydliad adrodd meddygol eu hunain.
142. At hynny, mae wedi bod yn beth cyffredin hefyd i gyfreithwyr ac yswirwyr drefnu contractau gyda sefydliadau adsefydlu preifat i ddarparu gwasanaethau adsefydlu i'w cleientiaid ar ôl anaf personol. Cyflwynwyd tystiolaeth storiol sy'n awgrymu bod cysylltiadau o'r fath yn cael eu camddefnyddio i orliwio'r adsefydlu sydd ei angen er mwyn cynyddu'r elw yn sgil yr hawliad.
143. Mabwysiadwyd model MedCo er mwyn cyflwyno rhagor o annibyniaeth a thorri'r cysylltiadau ariannol uniongyrchol rhwng cyfreithwyr sy'n gofyn am adroddiadau meddygol MedCo a'r arbenigwyr a'r sefydliadau paratoi adroddiadau meddygol sy'n eu darparu. Fodd bynnag, ni sefydlwyd MedCo i rwystro - ac nid yw ar hyn o bryd yn rhwystro - cyfreithwyr rhag atgyfeirio eu holl waith adsefydlu at ddarparwyr y maent naill ai'n berchen arnynt neu y mae ganddynt gyswllt ariannol uniongyrchol â hwy.
144. Mae dioddefwyr anafiadau dilys yn debygol o geisio triniaeth os ydynt mewn poen. Mae adsefydlu'n addas i rai ond nid i bawb sy'n dioddef anaf yn dilyn damwain ffordd. Felly, mae'n bwysig na fydd adsefydlu o'r fath yn cael ei drefnu fel mater o drefn at ddibenion ariannol. Dim ond ar sail argymhelliad arbenigwr meddygol y dylid ceisio gwasanaeth adsefydlu. Mae risg hyd yn oed y gallai sesiynau adsefydlu amharu ar gyflwr meddygol gwaelodol yr hawlwr, gan effeithio er gwaeth arno.

---

<sup>24</sup> Mae'r Cynghorydd Canlyniadau Hawliadau wedi datblygu systemau i gwmnïau yswiriant fwydo manylion am hawliadau am anafiadau personol i'r drefn, sy'n gwerthuso'r hyn y dylai'r setliad fod drwy ddefnyddio setliadau blaenorol cwmni a'r farchnad ehangach i sicrhau cyn lleied o amrywiadau ag sy'n bosibl yn y taliadau a wneir.

145. Mae gwahaniaeth barn ynghylch y ffordd orau o fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae rhai yswirwyr yn dadlau o blaid talu am adsefydlu drwy dalebau, yn hytrach nag ar ffurf arian parod, er mwyn dileu'r cymhellion ariannol. Mae eraill yn dadlau bod y problemau'n codi yn sgil diffyg annibyniaeth yn y farchnad h.y. ffyrmau o gyfreithwyr neu MROs sy'n berchen ar ddarparwyr gwasanaethau adsefydlu. Byddai'r llywodraeth yn hoffi clywed barn rhanddeiliaid ar fater adsefydlu, yn enwedig ar yr opsiynau ar gyfer gweithredu:

- a) **Opsiwn 1: Talebau adsefydlu** -y gellid ond eu cyfnewid am y sesiynau adsefydlu a dderbynnir/a fynychir. Yna dim ond am y talebau a ddefnyddir gan yr hawlydd y byddai'r darparwr adsefydlu'n cael ei dalu, nid am nifer y sesiynau y caiff eu trefnu. Byddai hyn yn helpu i osgoi hawliadau am wasanaeth adsefydlu nas darperir, ond fe allai fod yn gymhleth i'w weinyddu oherwydd dim ond ar ôl i'r yswiriwr gael prawf fod y driniaeth adsefydlu wedi digwydd y gellid talu'r darparwr.
- b) **Opsiwn 2: Y diffynnydd yn trefnu ac yn talu am yr holl adsefydlu** -mae rhai hawlwr ac yswirwyr wedi awgrymu y dylid trefnu triniaeth/adsefydlu preifat drwy ochr y diffynnydd, gan roi dewis o blith nifer isel o ddarparwyr o bosibl i'r hawlydd. Byddai hyn yn helpu i gyflymu'r llwybr at driniaeth ac yn sicrhau rhagor o annibyniaeth a thryloywder yn y broses.
- c) **Opsiwn 3: Peidio â thalu iawndal tuag at adsefydlu mewn hawliadau isel eu gwerth** -byddai'r opsiwn hwn yn golygu y byddai angen i'r hawlydd dalu unrhyw gostau adsefydlu ei hun. Gellir adennill costau adsefydlu ar hyn o bryd drwy gyfrwng iawndaliadau eraill am golledion yr eir iddynt (cyfeirir at hyn yn gyffredin fel iawndaliadau arbennig), y mae'r llywodraeth eisoes wedi'i gwneud yn glir nad yw'n bwriadu cyfyngu arnynt, a byddai gofyn llunio deddfwriaeth sylfaenol eto i roi newid o'r fath ar waith.
- d) **Opsiwn 4: Ehangu MedCo i gynnwys darparwyr adsefydlu** -gellid ymestyn system MedCo i gynnwys gwasanaethau adsefydlu yn ogystal â gwasanaethau adroddiadau meddygol. Byddai angen ystyried ychwanegu darparwyr adsefydlu yn ofalus, gan gynnwys nodi'r llwybr deddfwriaeth sy'n ofynnol i roi newidiadau ar waith yn y maes hwn.
- e) **Opsiwn 5: Cyflwyno iawndal penodedig y gellir ei adennill am driniaeth adsefydlu** -gallai hyn helpu i atal hawliadau diangen. Serch hynny, gallai fod yn anodd pennu'r cyfraddau cyffredinol oherwydd y byddai anghenion adsefydlu gwahanol hawlwr yn debygol o fod yn wahanol i'w gilydd. Byddai angen meddwl a fyddai'r iawndal yn cael ei bennu fesul sesiwn ynteu drwy bennu terfyn uchaf na fyddai modd ei groesi.

**Cwestiwn 27: Pa un o'r opsiynau i fynd i'r afael â'r materion sy'n datblygu yn y sector adsefydlu ydych chi'n cytuno ag ef (dewiswch un neu fwy o'r rhestr isod)?**

**Opsiwn 1: Talebau adsefydlu**

**Opsiwn 2: Y diffynnydd yn trefnu ac yn talu am yr holl adsefydlu**

**Opsiwn 3: Peidio â thalu iawndal tuag at adsefydlu mewn hawliadau isel eu gwerth**

**Opsiwn 4: Ehangu MedCo i gynnwys adsefydlu**

**Opsiwn 5: Cyflwyno iawndal penodedig y gellir ei adennill am driniaeth adsefydlu**

**Arall:**

**Rhowch resymau os gwelwch yn dda.**

**Cwestiwn 28: A oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill a fyddai'n helpu i atal hawliadau adsefydlu sydd o bosibl yn cael eu gorliwio neu'n rhai twyllodrus?**

**iv. Gallu adennill alldaliadau**

146. Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i leihau costau cyffredinol sy'n gysylltiedig â hawliadau isel eu gwerth am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd. Bydd codi'r terfyn hawliadau bychain ar gyfer hawliadau anafiadau personol yn helpu i gyflawni'r nod hwn. Serch hynny, mae modd i'r diffynnydd adennill rhai alldaliadau, hyd yn oed yn y llys hawliadau bychain, sy'n cynyddu costau'r hawliad. Felly gellid ystyried hefyd a ddylid rhoi rhagor o gyfyngiadau ar waith yn y maes hwn.
147. Er enghraifft, gellid rhoi ystyriaeth o'r fath i gyfyngu ar y gallu i adennill costau adroddiadau meddygol cychwynnol MedCo. Yn hytrach na thybio y byddai'r diffynnydd bron bob amser yn talu am ddarparu'r dystiolaeth feddygol, byddai'r cyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo i'r hawlydd. Efallai na fyddai'r gost benodedig bresennol, sef £180, yn atal hawlydd go iawn ag anafiadau mwy difrifol, er y gallai atal hawlwy'r sy'n ystyried dwyn mân hawliad, gan y byddai eu hiawndal tebygol am PSLA, o dan y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon, naill ai'n cael ei ddileu neu'n llai o swm. Gallai hefyd atal y rheini sy'n ceisio camddefnyddio'r system. O dan yr amgylchiadau hyn, gellid hefyd ystyried lefel yr adroddiadau meddygol cost sefydlog.
148. Byddai gennym ddiddordeb mewn clywed barn rhanddeiliaid ar b'un a ddylid cymryd camau pellach o ran adennill alldaliadau o'r fath.

**Cwestiwn 29: A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r llywodraeth archwilio ymhellach yr opsiwn o gyfyngu ar y gallu i adennill alldaliadau, e.e. ar gyfer adroddiadau meddygol?**

**Esboniwch eich rhesymau.**

**v. Opsiwn posibl yn y dyfodol -system seiliedig ar bwyntiau / Barème**

149. Rydym yn ceisio barn rhanddeiliaid ynghylch a fyddai modd datblygu system yn y DU sy'n debyg i'r rhai a ddefnyddir mewn awdurdodaethau eraill fel Ffrainc, Sbaen neu'r Eidal, y'u gelwir yn gyffredinol yn systemau sy'n seiliedig ar bwyntiau neu system o fath 'Barème', i ddelio â'r mathau hyn o hawliad. Mae'n bwysig nodi nad yw'r llywodraeth yn bwriadu cyflwyno system o'r fath yng Nghymru na Lloegr ar hyn o bryd, ac mai diben yr adran hon yw 'galw am dystiolaeth' i geisio mewnbwn gan ymatebwyr ar gynnig o'r fath.
150. Mae nifer o awdurdodaethau yn Ewrop yn gweithredu amrywiadau ar system 'Barème'. Ffordd o gategoreiddio'r anafiadau a ddioddefwyd yw hon (a hynny'n aml ochr yn ochr â thystiolaeth arall megis lefel y difrod i'r cerbyd neu gyflymder y gwrthdrawiad) gan ddefnyddio graddfa a dyfarnu pwyntiau sy'n cyfateb i wahanol raddfeydd o anaf/anallu. Defnyddir y dyfarniad pwyntiau wedyn i gostio'r iawndal a delir i'r hawlydd a anafwyd.
151. Yn Sbaen, cyflwynwyd diwygiad llawn o'i system 'Baremo' ym mis Ionawr eleni. Bydd hawliadau'n cael eu hasesu ar sail tri phrif gategori, sef iawndal am farwolaeth, anafiadau difrifol ac anafiadau dros dro. Caiff hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal

## Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal ('atchwip')

Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr

yn sgil damwain ffordd eu cwmpasu gan yr olaf o'r rhain. Rhestrir iawndal sylfaenol am anaf corfforol yn y ddeddfwriaeth, yn yr hyn a elwir yn 'Baremo' meddygol sy'n cynnig golwg gyffredinol ar yr anafiadau posibl, gan gynnwys niwed seicolegol a chorfforol. Mae'r 'Baremo' meddygol hefyd yn cynnwys dosbarthiad, disgrifiad ac asesiad o'r anafiadau unigol. Mae difrifoldeb yr anabledd yn cael ei fesur ar ffurf pwyntiau, a 100 yn cynrychioli'r radd uchaf posibl. Wedyn, defnyddir fformiwla benodol i gyfrifo'r iawndal.

152. Nid yw'r math hwn o system wedi'i ystyried yng Nghymru a Lloegr yn y gorffennol oherwydd ein bod ar hyn o bryd yn defnyddio'r broses setlo drwy negodi. Serch hynny, a chofio bwriad y llywodraeth o gyflwyno system dariff penodedig ar gyfer iawndaliadau, dyma faes y gellid ei ystyried ar gyfer y dyfodol.

**Cwestiwn 30: Gellid integreiddio cynllun newydd sy'n seiliedig ar ddull 'Barème' â'r diwygiadau newydd i ddileu iawndal o fân hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd a chyflwyno tariff sefydlog o iawndal ar gyfer yr holl hawliadau eraill am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd. Beth yw manteision ac anfanteision cynllun o'r fath?**

**Rhowch resymau dros eich ateb gan nodi pa elfennau, os o gwbl, y dylid eu hystyried wrth ei ddatblygu.**

### Casgliad

153. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi nifer o feysydd lle mae'r llywodraeth yn gweithredu i reoli costau ymgyfreitha sifil, yn enwedig yng nghyswllt hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd.
154. Mae hefyd yn nodi meysydd y gellir cyfiawnhau eu diwygio yn y dyfodol.
155. Byddai gan y llywodraeth ddiddordeb mewn clywed barn rhanddeiliaid ar y rhain ac unrhyw faterion cysylltiedig eraill yr hoffai ymatebwyr eu codi.

**Cwestiwn 31: A fydddech cystal â manylu ar unrhyw awgrymiadau eraill lle gallai diwygiadau pellach gan y llywodraeth helpu i reoli costau ymgyfreitha sifil.**

## **Rhan 8 -Yr amserlen deddfwriaethol a'i rhoi ar waith**

156. Mae'r llywodraeth yn cynnig cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer mesurau (a), (b) a (d) yn y papur ymgynghori hwn cyn gynted ag y bydd amser yn y senedd yn ei ganiatáu.
157. Bydd mesur (c) yn cael ei roi ar waith drwy newidiadau i Reolau'r Weithdrefn Sifil a Phrotocolau Cyn-achos cysylltiedig.
158. Yn amodol ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, nod y llywodraeth yw rhoi'r diwygiadau hyn ar waith cyn gynted â phosibl.

## **Rhan 9 -Holiadur**

Byddem yn croesawu ymateb i'r cwestiynau canlynol a ofynnir yn y papur ymgynghori hwn.

Cwestiwn 1: A ddylid defnyddio'r diffiniad ym mharagraff 17 i ddynodi'r hawliadau yr effeithir arnynt gan y broses o ddileu'r iawndal a delir am boen, dioddef a cholli amwynder mewn mân hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd a chyflwyno tariff penodedig o iawndaliadau cymesur ar gyfer pob math arall o hawliad? A fydddech cystal â rhoi eich rhesymau, ac unrhyw ddiffiniad gwahanol y dylid ei ystyried.

## **Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal ('atchwip')**

Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr

Cwestiwn 2: A ddylai'r diffiniad ym mharagraff 17 gael ei estyn i gynnwys hawliadau am drawma seicolegol lle mai'r brif elfen mewn mân hawliad am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd fydd elfen seicolegol? A fydech cystal â rhoi rhagor o wybodaeth i gefnogi'ch ateb, gan gynnwys sut gellid diwygio'r diffiniad hwn i grisialu'r dosbarthiad hwn o hawliad mewn ffordd effeithiol, os yw hynny'n berthnasol.

**Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal ('atchwip')**

Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr

Cwestiwn 3: Mae'r llywodraeth yn cyflwyno dau opsiwn i leihau neu ddileu swm yr iawndal a delir am boen, dioddef a cholli amwynder mewn mân hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd. A ddylid diffinio cwmpas mân anafiadau fel cyfnod o chwe mis neu lai? Esboniwch eich rhesymau, ynghyd ag unrhyw awgrymiadau amgen ar gyfer diffinio'r cwmpas.



**Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal ('atchwip')**

Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr

Cwestiwn 4: Fel arall, a ddylai'r llywodraeth ystyried rhoi'r diwygiadau hyn ar waith ar gyfer hawliadau am gyfnodau o naw mis neu lai? Esboniwch eich rhesymau, ynghyd ag unrhyw awgrymiadau amgen ar gyfer diffinio'r cwrpas.

**Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal ('atchwip')**

Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr

Cwestiwn 5: A fydddech cystal â nodi eich barn ar b'un a ddylid dileu'r iawndal a delir am boen, dioddef a cholli amwynder o fân hawliadau fel y'u diffinnir yn Rhan 1 o'r ymgynghoriad hwn? Esboniwch eich rhesymau.

**Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal ('atchwip')**

Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr

Cwestiwn 6: A fydddech cystal â rhoi eich barn ar b'un a ddylid cyflwyno swm sefydlog i gwmpasu mân hawliadau fel y'u diffinnir yn Rhan 1 o'r ymgynghoriad hwn? Esboniwch eich rhesymau.

**Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal ('atchwip')**

Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr

Cwestiwn 7: A fydddech cystal â rhoi eich barn ar gynigion y llywodraeth i bennu swm yr iawndal a delir am boen, dioddef a cholli amwynder ar gyfer mân hawliadau ar £400 ac ar £425 os yw'r hawliad yn cynnwys elfen seicolegol. Esboniwch eich rhesymau.

Cwestiwn 8: Os bydd yr opsiwn i ddileu'r iawndal a delir am boen, dioddef a cholli amwynder o hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd yn cael ei ystyried, rhowch eich barn ar b'un a ddylid defnyddio'r system 'Diagnosis'. Esboniwch eich rhesymau.

**Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal ('atchwip')**

Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr



Cwestiwn 9: Os penderfynir bwrw ymlaen â'r naill opsiwn neu'r llall i fynd i'r afael â mân hawliadau (gweler Rhan 2 y ddogfen ymgynghori hon), a fyddech cystal â rhoi eich barn ar b'un a ddylid defnyddio'r system 'Prognosis'. Esboniwch eich rhesymau.

**Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal ('atchwip')**

Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr

Cwestiwn 10: A fyddai cyflwyno'r model 'diagnosis' yn helpu i reoli'r arfer lle bydd hawlwyr yn dwyn eu hawliad yn hwyr yn y cyfnod cyfyngu? Esboniwch eich rhesymau ac os ydych chi'n anghytuno, rhwch eich barn am sut y dylid mynd i'r afael â hawliadau yr hysbysir yn eu cylch yn hwyr?

Cwestiwn 11: Mae'r ffigurau tariff wedi'u datblygu i gyflawni amcanion y llywodraeth. Ydych chi'n cytuno â'r ffigurau a roddwyd? Esboniwch eich rhesymau dros ddweud hyn gan gynnig unrhyw awgrymiadau am ffigurau a dweud sut y cawsoch chi'r ffigurau hynny.

**Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal ('atchwip')**

Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr

Cwestiwn 12: A ddylid cynnwys yr amgylchiadau lle gellir dewis cynyddu'r taliadau yn y ddeddfwriaeth neu a ddylai'r Farnwriaeth allu dewis cynyddu'r taliadau iawndal penodedig hyd at 20% o dan amgylchiadau eithriadol? Esboniwch eich rhesymau gan nodi pa amgylchiadau y byddech chi'n eu hystyried yn rhai eithriadol.

Cwestiwn 13: A ddylid codi terfyn y trac hawliadau bychain ar gyfer pob anaf personol neu a ddylai fod yn gyfyngedig i ddamweiniau ffordd yn unig? Esboniwch eich rhesymau.

**Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal ('atchwip')**

Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr

Cwestiwn 14: Nid yw'r terfyn ar gyfer trac yr hawliadau bychain am anafiadau personol wedi codi ers 25 mlynedd. Felly bydd y terfyn yn cael ei godi i gynnwys hawliadau sy'n cynnwys elfen o boen, dioddef a cholli amwynder gwerth hyd at £5,000. Fodd bynnag, byddem yn croesawu safbwyntiau rhanddeiliaid ar b'un a ddylid codi'r terfyn hawliadau bychain am anafiadau personol y tu hwnt i £5,000 ac os felly, pam ac i ba lefel?

Cwestiwn 15: Rhowch eich barn am unrhyw welliannau a allai roi rhagor o gymorth i bobl sy'n eu cynrychioli eu hunain yn y Trac Hawliadau Bychain.

**Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal ('atchwip')**

Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr



Cwestiwn 16: Ydych chi'n meddwl y dylid rhoi unrhyw fesurau penodol ar waith mewn perthynas â chwmnïau rheoli hawliadau a McKenzie Friends sy'n derbyn tâl yn gweithredu yn y sector anafiadau personol? Esboniwch eich rhesymau.

**Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal ('atchwip')**

Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr

Cwestiwn 17: Ai dim ond i anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd y dylai'r gwaharddiad ar gynigion cyn prawf meddygol fod yn berthnasol? Esboniwch eich rhesymau.

Cwestiwn 18: A ddylai fod unrhyw eithriadau i'r gwaharddiad? Os felly, pa rai a pham?

**Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal ('atchwip')**

Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr

Cwestiwn 19: Sut y dylid gorfodi'r gwaharddiad? Esboniwch eich rhesymau.



**Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal ('atchwip')**

Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr

Cwestiwn 20: A ddylid diwygio'r Ffurflen Hysbysu ynghylch Hawliadau i gynnwys ffynhonnell atgyfeirio'r hawliad? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 21: A ddylid diwygio'r darpariaethau ynghylch Symud Costau Un Ffordd Cymwysedig fel bod gofyn i hawlydd geisio caniatâd y llys i roi'r gorau i'r achos lai na 28 diwrnod cyn y treial (Rhan 38.4 o CPR)? Rhowch eich rhesymau.

**Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal ('atchwip')**

Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr

Cwestiwn 22: Pa fodel ar gyfer adfywio'r modd yr ymdrinnir â chytundebau llogi ar greyd yn y dyfodol ydych chi'n ei gefnogi? a) Model y Parti Cyntaf b) Y Model Rheoleiddio c) Cod Ymddygiad y Diwydiant d) Model y Cynnig Cystadleuol e) Arall Cofiwch ddarparu tystiolaeth ategol/rhesymau dros eich barn (gall fod yn seiliedig ar unrhyw un o'r modelau a amlinellir uchod neu fodelau eraill nas trafodir yma).



Cwestiwn 23: Pa awgrymiadau eraill (os oes gennych rai) ar gyfer diwygio a fyddai'n helpu'r sector llogi ar gredyd, yn benodol, i fynd i'r afael â'r math o ymddygiad a welir gan y sawl sy'n cymryd rhan yn y farchnad? Nodwch y ffactorau y credwch y dylid eu hystyried a pham.

**Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal ('atchwip')**

Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr

Cwestiwn 24: Beth fyddai'r ffordd orau o wella sut y caiff defnyddwyr eu haddysgu ynghylch llogi cerbydau priodol ar gredyd?

**Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal ('atchwip')**

Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr

Cwestiwn 25: A ydych chi'n meddwl y dylid cyflwyno system hysbysu'n fuan am hawliadau yng Nghymru a Lloegr? Rhowch resymau a/neu dystiolaeth i gefnogi'ch barn.



**Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal ('atchwip')**

Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr

Cwestiwn 26: Rhowch eich barn am yr opsiwn o'i gwneud hi'n ofynnol i hawlwyr geisio triniaeth feddygol o fewn cyfnod penodol ac a ddylid tybio bod hawliad yn 'fân hawliad' os na chaiff triniaeth ei cheisio o fewn y cyfnod hwn. Esboniwch eich rhesymau.



**Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal ('atchwip')**

Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr

Cwestiwn 27: Pa un o'r opsiynau i fynd i'r afael â'r materion sy'n datblygu yn y sector adsefydlu ydych chi'n cytuno ag ef (dewiswch un neu fwy o'r rhestr isod)? Opsiwn 1: Talebau adsefydlu Opsiwn 2: Y diffynnydd yn trefnu ac yn talu am yr holl adsefydlu Opsiwn 3: Peidio â thalu iawndal tuag at adsefydlu mewn hawliadau isel eu gwerth Opsiwn 4: Ehangu MedCo i gynnwys adsefydlu Opsiwn 5: Cyflwyno iawndal penodedig y gellir ei adennill am driniaeth adsefydlu Arall: Rhowch resymau os gwelwch yn dda.





**Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal ('atchwip')**

Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr

Cwestiwn 28: A oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill a fyddai'n helpu i atal hawliadau adsefydlu sydd o bosibl yn cael eu gorliwio neu'n rhai twyllodrus?

Cwestiwn 29: A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r llywodraeth archwilio ymhellach yr opsiwn o gyfyngu ar y gallu i adennill alldaliadau, e.e. Ar gyfer adroddiadau meddygol? Esboniwch eich rhesymau.

**Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal ('atchwip')**

Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr

Cwestiwn 30: Gellid integreiddio cynllun newydd sy'n seiliedig ar ddull 'Barème' â'r diwygiadau newydd i ddileu iawndal o fân hawliadau am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd a chyflwyno tariff sefydlog o iawndal ar gyfer yr holl hawliadau eraill am anafiadau i'r feinwe feddal yn sgil damwain ffordd. Beth yw manteision ac anfanteision cynllun o'r fath? Rhowch resymau dros eich ateb gan nodi pa elfennau, os o gwbl, y dylid eu hystyried wrth ei ddatblygu.

Cwestiwn 31: A fydddech cystal â manylu ar unrhyw awgrymiadau eraill lle gallai diwygiadau pellach gan y llywodraeth helpu i reoli costau ymgyfreitha sifil.

**Diolch ichi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.**

## **Rhan 10 -Asesiad o'r Effeithiau**

159. Mae'r llywodraeth yn ymwybodol o bwysigrwydd ystyried effeithiau'r cynlluniau hyn ar wahanol grwpiau. Felly, rydym wedi ystyried effeithiau'r holl fesurau yn y pecyn yn unol â'n dyletswyddau i grwpiau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi'r naw nodwedd warchoddedig, sef hil, rhywedd, anabledd, hunaniaeth rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol ac oedran.

160. Mae ein hasesiadau o effaith bosibl y cynigion hyn wedi cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r Papur Ymgynghori hwn fel asesiad o'r effeithiau. Mae cwestiynau pellach ynghylch ystyriaethau yn ymwneud â chydaddoldeb fel effeithiau'r mesurau hyn ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig ar gael yn adran 7 o Ran 10.

### **Cwestiynau Ychwanegol yr Asesiad o'r Effeithiau**

161. Yn yr Asesiad o'r Effeithiau, rydym yn cydnabod bod rhai bylchau yn yr ymchwil a'r dystiolaeth ystadegol yr ydym wedi gallu eu defnyddio i ddeall effaith bosibl ein cynigion. Byddem yn falch o gael unrhyw wybodaeth, tystiolaeth a sylwadau ychwanegol a allai helpu i fynd i'r afael â rhai o'r bylchau hyn mewn unrhyw asesiad pellach.

162. Mae'r cwestiynau canlynol yn ymwneud â'r asesiad o'r effeithiau a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori hon, a dylid eu croesgyfeirio ag ef:

#### **1 -Opsiyau**

**Cwestiwn 1.1:** A ydych yn cytuno â'r ystod o dybiaethau yng nghyswllt Opsiwn 1.1? Os nad ydych, esboniwch pam, gan roi tystiolaeth ategol os oes modd.

**Cwestiwn 1.2:** A ydych yn cytuno â'r ystod o dybiaethau yng nghyswllt Opsiwn 1.2? Os nad ydych, esboniwch pam, gan roi tystiolaeth ategol os oes modd.

**Cwestiwn 1.3:** A ydych yn cytuno â'r ystod o dybiaethau yng nghyswllt Opsiwn 2? Os nad ydych, esboniwch pam, gan roi tystiolaeth ategol os oes modd.

**Cwestiwn 1.4:** A ydych yn cytuno â'r ystod o dybiaethau yng nghyswllt Opsiwn 3? Os nad ydych, esboniwch pam, gan roi tystiolaeth ategol os oes modd.

**Cwestiwn 1.5:** A ydych yn cytuno â'r ystod o dybiaethau yng nghyswllt Opsiwn 4? Os nad ydych, esboniwch pam, gan roi tystiolaeth ategol os oes modd.

**Cwestiwn 1.6:** A ydych yn cytuno â'r ystod o dybiaethau yng nghyswllt Opsiwn 5.1? Os nad ydych, esboniwch pam, gan roi tystiolaeth ategol os oes modd.

**Cwestiwn 1.7:** A ydych yn cytuno â'r ystod o dybiaethau yng nghyswllt Opsiwn 5.2? Os nad ydych, esboniwch pam, gan roi tystiolaeth ategol os oes modd.

## **2 -Cynigion Cyn Prawf Meddygol**

**Cwestiwn 2.1:** O'ch profiad chi ym maes hawliadau am anafiadau personol, a fyddech crystal â rhoi rhagor o wybodaeth am y materion a godwyd yng nghyswllt cynigion cyn prawf meddygol yn yr asesiad o'r effeithiau. Yn benodol, rhwch unrhyw wybodaeth sydd gennych am:

- i. nifer yr hawliadau cyfredol a hanesyddol ar gyfartaledd;
- ii. cyfran yr hawliadau â chynrychiolaeth gyfreithiol, ac wedi'u dosbarthu yn ôl math o gynrychiolaeth gyfreithiol (er enghraifft cyfran yr hawlwyd â chynrychiolaeth gyfreithiol wedi'i hariannu gan BTE, cyfran yr hawlwyd â chynrychiolaeth gyfreithiol heb ei hariannu gan BTE a chyfran yr hawlwyd sy'n eu cynrychioli eu hunain);
- iii. cyfran yr hawliadau gydag iawndaliadau arbennig (ac wedi'u dosbarthu yn ôl math o iawndaliadau arbennig);
- iv. setliadau cyfredol a hanesyddol ar gyfartaledd (cyfanswm y setliad, elfen PSLA, ac elfen iawndaliadau arbennig, ar wahân), wedi'u rhannu'n haenau yn ôl faint o amser mae anaf yr hawlydd yn para, os yw'n bosibl;
- v. nifer yr hawliadau hwyr cyfredol a hanesyddol ar gyfartaledd/pa mor hir ar ôl y ddamwain y gwneir/derbynnir y cynnig a ffynhonnell/tarddiad y cynigion (h.y. cynigion gan yr yswiriwr, y cyfreithiwr ac ati);
- vi. newid tebygol i'r uchod yn sgil bwriadau'r llywodraeth a nodir yn yr ymgynghoriad; a
- vii. yr uchod ar gyfer hawliadau am ddamweiniau ffordd, hawliadau atebolrwydd cyflogwr, hawliadau atebolrwydd cyhoeddus a hawliadau esgeulustod clinigol.

## **3 -Hawliadau am Anafiadau Personol nad ydynt yn sgil damwain ffordd**

### **i) Atebolrwydd Cyflogwr**

**Cwestiwn 3.1:** O'ch profiad chi ym maes hawliadau am anafiadau personol, a fyddech crystal â rhoi rhagor o wybodaeth am y materion a godwyd yng nghyswllt hawliadau atebolrwydd cyflogwr yn yr asesiad o'r effeithiau. Yn benodol, rhwch unrhyw wybodaeth sydd gennych am:

- i. nifer a chyfran yr hawlwyd cyfredol a hanesyddol ar gyfartaledd sydd ag yswiriant BTE;
- ii. cyfran yr hawliadau â chynrychiolaeth gyfreithiol, ac wedi'u dosbarthu yn ôl math o gynrychiolaeth gyfreithiol (er enghraifft cyfran yr hawlwyd â chynrychiolaeth gyfreithiol wedi'i hariannu gan BTE, cyfran yr hawlwyd â chynrychiolaeth gyfreithiol heb ei hariannu gan BTE a chyfran yr hawlwyd sy'n eu cynrychioli eu hunain);
- iii. cyfran yr hawliadau gydag iawndaliadau arbennig (ac wedi'u dosbarthu yn ôl math o iawndaliadau arbennig);
- iv. setliadau cyfredol a hanesyddol ar gyfartaledd (cyfanswm y setliad, elfen PSLA, ac elfen iawndaliadau arbennig, ar wahân), wedi'u rhannu'n haenau yn ôl faint o amser mae anaf yr hawlydd yn para, os yw'n bosibl;
- v. nifer yr hawliadau hwyr cyfredol a hanesyddol ar gyfartaledd/pa mor hir ar ôl y ddamwain y cyflwynir yr hawliad;
- vi. pa gyfran o'r farchnad sydd ag yswiriant preifat a'r uchod i gyd ar gyfer hawliadau sydd ag adroddiadau meddygol ar hyn o bryd a'r rhai sy'n gynigion cyn prawf meddygol; a
- vii. newid tebygol i'r uchod yn sgil bwriadau'r llywodraeth a nodir yn yr ymgynghoriad.

## **ii) Atebolrwydd Cyhoeddus**

**Cwestiwn 3.2:** O'ch profiad chi ym maes hawliadau am anafiadau personol, a fydddech cystal â rhoi rhagor o wybodaeth am y materion a godwyd yng nghyswllt hawliadau atebolrwydd cyhoeddus yn yr asesiad o'r effeithiau. Yn benodol, rhowch unrhyw wybodaeth sydd gennych am:

- i. nifer a chyfran yr hawlwyd cyfredol a hanesyddol ar gyfartaledd sydd ag yswiriant BTE;
- ii. cyfran yr hawliadau â chynrychiolaeth gyfreithiol, ac wedi'u dosbarthu yn ôl math o gynrychiolaeth gyfreithiol (er enghraifft cyfran yr hawlwyd â chynrychiolaeth gyfreithiol wedi'i hariannu gan BTE, cyfran yr hawlwyd â chynrychiolaeth gyfreithiol heb ei hariannu gan BTE a chyfran yr hawlwyd sy'n eu cynrychioli eu hunain);
- iii. cyfran yr hawliadau gydag iawndaliadau arbennig (ac wedi'u dosbarthu yn ôl math o iawndaliadau arbennig);
- iv. setliadau cyfredol a hanesyddol ar gyfartaledd (cyfanswm y setliad, elfen PSLA, ac elfen iawndaliadau arbennig, ar wahân), wedi'u rhannu'n haenau yn ôl faint o amser mae anaf yr hawlwyd yn para, os yw'n bosibl;
- v. nifer yr hawliadau hwyr cyfredol a hanesyddol ar gyfartaledd/pa mor hir ar ôl y ddamwain y cyflwynir yr hawliad;
- vi. pa gyfran o'r farchnad sydd ag yswiriant preifat a'r uchod i gyd ar gyfer hawliadau sydd ag adroddiadau meddygol ar hyn o bryd a'r rhai sy'n gynigion cyn prawf meddygol; a
- vii. newid tebygol i'r uchod yn sgil bwriadau'r llywodraeth a nodir yn yr ymgynghoriad.

## **iii) Esgeulustod Clinigol**

**Cwestiwn 3.3:** O'ch profiad chi gyda hawliadau am anafiadau personol, a fydddech cystal â rhoi rhagor o wybodaeth am y materion a godwyd yng nghyswllt hawliadau esgeulustod clinigol isel eu gwerth yn yr asesiad o'r effeithiau. Yn benodol, rhowch unrhyw wybodaeth sydd gennych am:

- i. nifer a chyfran yr hawlwyd cyfredol a hanesyddol ar gyfartaledd sydd ag yswiriant BTE;
- ii. cyfran yr hawliadau â chynrychiolaeth gyfreithiol, ac wedi'u dosbarthu yn ôl math o gynrychiolaeth gyfreithiol (er enghraifft cyfran yr hawlwyd â chynrychiolaeth gyfreithiol wedi'i hariannu gan BTE, cyfran yr hawlwyd â chynrychiolaeth gyfreithiol heb ei hariannu gan BTE a chyfran yr hawlwyd sy'n eu cynrychioli eu hunain);
- iii. cyfran yr hawliadau gydag iawndaliadau arbennig (ac wedi'u dosbarthu yn ôl math o iawndaliadau arbennig);
- iv. setliadau cyfredol a hanesyddol ar gyfartaledd (cyfanswm y setliad, elfen PSLA, ac elfen iawndaliadau arbennig, ar wahân), wedi'u rhannu'n haenau yn ôl faint o amser mae anaf yr hawlwyd yn para, os yw'n bosibl;
- v. nifer yr hawliadau hwyr cyfredol a hanesyddol ar gyfartaledd/pa mor hir ar ôl y ddamwain y cyflwynir yr hawliad;
- vi. pa gyfran o'r farchnad sydd ag yswiriant preifat a'r uchod i gyd ar gyfer hawliadau sydd ag adroddiadau meddygol ar hyn o bryd a'r rhai sy'n gynigion cyn prawf meddygol; a
- vii. newid tebygol i'r uchod yn sgil bwriadau'r llywodraeth a nodir yn yr ymgynghoriad.



#### **4 -BTE**

Cwestiwn 4.1: O'ch profiad chi ym maes hawliadau am anafiadau personol, a fydddech crystal â rhoi rhagor o wybodaeth am y materion a godwyd yng nghyswllt yswiriant BTE yn yr asesiad o'r effeithiau. Yn benodol, rhowch unrhyw wybodaeth sydd gennych am:

- i. lefel gyfredol a hanesyddol yr hawliadau am ddamweiniau ffyrdd ar gyfartaledd sydd ag adroddiadau meddygol ar hyn o bryd
- ii. costau cyfredol a hanesyddol cynhyrchion BTE
- iii. newid tebygol i'r uchod yn sgil bwriadau'r llywodraeth a nodir yn yr ymgynghoriad.

#### **5 -Yr effaith ar y GIG**

**Cwestiwn 5.1:** A oes gennych unrhyw wybodaeth am nodweddion anafiadau unigolion sy'n ceisio triniaeth gan y GIG gyda golwg ar hawliadau am anafiadau personol wedi'u dosbarthu yn ôl cleifion mewnol, cleifion allanol a'r rheini y mae angen galw ambiwlans ar eu cyfer. Os felly, rhowch fanylion am y math o driniaeth, am faint wnaeth yr anaf bara ac ati.

#### **6 -Cyfran arbedion yswirwyr a drosglwyddir i gwsmeriaid**

**Cwestiwn 6.1:** Byddem hefyd yn falch o glywed barn ymatebwyr am y dybiaeth yn yr Aseiad o'r Effeithiau y byddai 85% o'r arian a arbedid gan yswirwyr yn cael ei drosglwyddo i ddefnyddwyr.

#### **7 -Cydraddoldeb/Nodweddion Gwarchoddedig**

**Cwestiwn 7.1:** A ydych yn meddwl y bydd unrhyw rai o'r cynigion hyn yn effeithio ar bobl sydd â nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig? Os ydych, rhowch fanylion.

**Cwestiwn 7.2:** A ydych yn meddwl bod unrhyw un o'r cynigion hyn yn effeithio ar y ddyletswydd i roi sylw dyledus i hybu cyfle cyfartal, drwy sicrhau cyn lleied o anfanteision â phosibl yn sgil nodweddion gwarchoddedig? Os ydych, rhowch fanylion.

**Cwestiwn 7.3:** A oes gennych unrhyw ddata i gefnogi neu i anghytuno ag unrhyw rai o'r cynigion yr hoffech i'r llywodraeth eu hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad hwn?

#### **8 -Aseiad o Fusnesau Bach a Micro Fusnesau**

116. **Cwestiwn 8.1:** A yw eich busnes yn fusnes bach, micro neu ganolig<sup>25</sup> sy'n gweithio yng Nghymru a Lloegr i gefnogi hawliadau yng nghyswllt anafiadau personol yn sgil damwain ffordd, atebolrwydd cyflogwyr, atebolrwydd cyhoeddus neu esgeulustod clinigol?

**Cwestiwn 8.2:** Beth yw eich asesiad chi o effeithiau'r diwygiadau sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn ar eich busnes chi?  
Lle y bo'n bosibl, rhowch dystiolaeth i gefnogi eich sylwadau.

---

<sup>25</sup> Caiff maint busnesau ei ddiffinio fel a ganlyn:

- Micro fusnes - busnes â hyd at **10** o weithwyr;
- Busnes bach - busnes â rhwng **9 a 49** o weithwyr (llawn amser); a
- Busnes canolig - busnes â rhwng **50 a 249** o weithwyr (llawn amser).

**Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal ('atchwip')**

Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr

**Amdanoch chi**

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud pwy ydych chi

<b>Enw llawn</b>	
<b>Teitl swydd</b> neu ym mha rinwedd rydych yn ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd ac ati)	
<b>Dyddiad</b>	
<b>Enw'r cwmni/sefydliad</b> (os yw hynny'n berthnasol):	
<b>Sector</b> (e.e. Yswiriwr, Cyfreithiwr Hawlwyr, Cyfreithiwr Diffynyddion, MRO, CMC, ABS, Arbenigwr Meddygol, Grŵp Cynrychioladol, Awdurdod Lleol, Un o Adrannau'r Llywodraeth neu sector arall):	
<b>Cyfeiriad</b>	
<b>Cod post</b>	
Os hoffech inni gydnabod ein bod wedi cael eich ymateb, ticiwch y blwch hwn	<input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch)
Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth ato, os yw'n wahanol i'r uchod	

**Os ydych yn cynrychioli grŵp**, rhwng enw'r grŵp a chrynhofi'r bobl neu'r sefydliadau rydych yn eu cynrychioli.

---



---

**Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal ('atchwip')**  
Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr

---

---

## Manylion cysylltu/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn dydd Gwener 6 Ionawr 2017 at:

Scott Tubbritt  
Ministry of Justice  
3.50, 3<sup>rd</sup> Floor  
102 Petty France  
London SW1H 9AJ

Ffôn: 020 3334 3157

Ffacs: 0870 739 4268

E-bost: [whiplashcondoc@justice.gsi.gov.uk](mailto:whiplashcondoc@justice.gsi.gov.uk)

### Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori, dylech chi gysylltu â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

### Copiâu ychwanegol

Gellir cael rhagor o gopiâu papur o'r ymgynghoriad hwn o'r cyfeiriad uchod ac mae modd cael copi ar-lein ohono hefyd yn: <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/reforming-soft-tissue-injury-claims>

Gallwch ofyn am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn ar fformatau eraill drwy ffonio'r Tîm Diwygio Anafiadau Atchwip ar 020 3334 3157 neu anfon ebost at: [whiplashcondoc@justice.gsi.gov.uk](mailto:whiplashcondoc@justice.gsi.gov.uk).

### Cyhoeddi ymatebion

Cyhoeddir papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn o fewn 3 mis.

Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn: <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/reforming-soft-tissue-injury-claims>

### Grwpiau cynrychioliadol

Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol grynhoi'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli wrth iddynt ymateb.

### Cyfrinachedd

Mae'n bosibl y cyhoeddir neu y datgelir gwybodaeth a roddir wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol yn unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth (sef yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am inni drin y wybodaeth a rowch inni'n gyfrinachol, cofiwch, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, bod Cod Ymarfer statudol ar waith y mae'n rhaid i awdurdodau

## **Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal ('atchwip')**

Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr

cyhoeddus gydymffurfio ag ef. Mae hwn, ymhlith pethau eraill, yn ymwneud â dyletswyddau i gadw cyfrinachedd.

Yng ngoleuni hyn, byddai'n help inni petaech yn esbonio pam rydych yn ystyried y wybodaeth yr ydych wedi'i darparu'n gyfrinachol. Os cawn gais am ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn warantu y gallwn gadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig gan eich system TG, ynndo'i hun, yn cael ei ystyried yn un sy'n cyfrwymo'r Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data, a gan amlaf, bydd hyn yn golygu na chaiff eich data personol eu datgelu i drydydd partion.

## **Diwygio'r Broses Hawliadau am Anafiadau i'r Feinwe Feddal ('atchwip')**

Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau ar gyfer hawliadau am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr

## **Egwyddorion ymgynghori**

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r llywodraeth a chyirff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi'u nodi yn yr egwyddorion ymgynghori.

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>



ISBN 978-1-4741-3895-6



9 781474 138956